tafod elái

www.tafelai.net

Hydref 2002 | Pris 40c | Rhif 171

Popio drwy´r nos

Roedd Neuadd y Miwni yn orlawn a'r tenswin yn uchel wrth i'r dorf edrych ymlaen at uchafbwynt cystadleuaeth Popio i bobl ifanc Rhondda Cynon Taf. Daeth chwech drwodd i'r rownd derfynol, tair o ysgol Rhydywaun, dau o Rydfelen ac un o'r Cymer.

Cyflwynwyd y noson gan Elen a Rhydian o S4C ac yn dilyn agoriad trawiadol gan y grwp Trysor dechreuodd y cystadlu o ddifri. Roedd rhaid i bob cystadleuydd ganu dwy gân gyferbyniol a chafwyd amrywiaeth o ganeuon gyda cherddoriaeth cefndir a dawnswyr. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd perfformiad Menna o Black Velvet , Jeni o Camau'n Nesau, Jessica o Sut Fedrai i Fyw ac wrth gwrs Alun gyda'i berfformaid ysgubol o Mac y Gyllell.

Cafwyd barn y beirniad o'r sofa, Branwen Gwyn a Ieuan Rhys, ac yna cyfle i'r holl gynulleidfa bleidleisio am ei hoff berfformiwr.

Yn fuddugol roedd Alun Cowles o Ysgol Rhydfelen sydd yn astudio celf a drama at Lefel A ac yn mwynhau pob eiliad o berfformio.

Llongyfarchiadau i griw Cic fu'n trefnu'r noson ac yn arbennig i Angela Gould, Martyn Geraint a Dawn Williams am sicrhau gwledd o dalent ifanc newydd.

Alun, Jeni, Menna
Jessica, Kate, Robert

RHYS YN BWLGARIA

Yn dilyn ei daith i Gynhadledd y Byd yn Johannesburg mae Rhys Richardson o Ysgol Gyfun Llanhari wedi cael gwahodiad i fynd i Fwlgaria i drafod ei brofiadau gyda 60 o bobl ifanc o bob rhan o Ewrop.

Roedd ei ymweliad â thref 'shanti' Johannesburg a Lesotho wedi cael argraff ddofn arno. Bydd ei ymweliad â Bwlgaria yn gyfle pellach i drafod datblygu cynaladwy.

YSGOL RHYDFELEN YN 40

Bydd prynhawn agored a dawns fawreddog wrth i Ysgol Gyfun Rhydfelen ddathlu 40 mlynedd ar Hydref 12ed. Efallai mai hwn fydd y tro olaf i weld yr adeiladau hynafol a fu'n gartref i'r ysgol cyn iddi symud i'r safle newydd ym Mhentre'r Eglwys.

Archebwch
Tafod Elái
am y flwyddyn nesaf
dim ond **£4**
gwerth pob ceiniog

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y 1af Tachwedd 2002
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
22 Hydref 2002

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Uned 27, Ystad Ddiwydiannol
Mynachlog Nedd
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

www.cwlwm.com
Gwybodaeth am holl weithgareddau Cymraeg yr ardal.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT…
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol
www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

DRAMAU yn y Cylch

Blodeuwedd gan Saunders Lewis.
Cwmni Theatr Gwynedd
Yn Neuadd Goffa y Barri, Nos Wener, 18 Hydref 7.30yh.

Fel Hen Wîn gan Valmai Jones
Theatr Bara Caws,
Yn Neuadd Llanofer, Caerdydd.
Nos Wener 25 Hydref. 7.30.

TAITH I GODI'R GALON.
Artistiaid – Idris Charles – Hywel Gwynfryn/Arwel Jones – Gareth Owen – Broc Môr – Robin Jones – Laura Sutton – Band Penffordd.
Nos Sadwrn, 26 Hydref 2002 yn Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdre

Gwyl Ddrama Tafod Elái
Nos Fercher - Nos Wener, 20 - 22 Tachwedd 2002
yn Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdref.

CYLCH CADWGAN

Mererid Hopwood
yn siarad ar y testun
'Fflŵr a Dŵr a Dyddiau Da'.

8pm Nos Wener
Hydref 4 2002
Neuadd y Pentref, Efail Isaf.
Gyda chymorth yr academi

Merched y Wawr

Cangen y Garth
Ioga gyda Ann Jones
8pm Nos Fercher, 9ed Hydref
Festri Bethlehem,
Gwaelod y Garth
Manylion – 01443 204391.

TWMPATH DAWNS

Gyda
Jac y Do
Neuadd y Pentref, Pentyrch
Nos Wener, 1af Tachwedd
Tocynnau £6
Oddiwrth: 029 20 891426

Clwb y Dwrlyn
Taith y Dail

Cerdded o
Neuadd y Pentref, Pentyrch
2pm Dydd Sul 13feg Hydref.
Gwybodaeth pellach:
029 20890040

Gyn-ddisgyblion Ysgol Rhydfelen!

Penblwydd 40 yr ysgol!

Dathlu mawr Hydref 12

Cyfle i ail-ymweld â'r ysgol rhwng 2.00 a 4.30
Bydd Gwent a'r blociau ar agor yn eu holl ogoniant!

Cyfle gwych (olaf?) cyn eu chwalu

Wedyn am 7.30:
Caryl Parry Jones
band-bwffe-bar
Cyfle i gofio, cymdeithasu, hel atgofion!

Tocynnau: £10

Ffoniwch Jamie Medhurst: 01970 828337

17eg Gwyl Ddrama Tafod Elái 2002

Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdref 20—22 Tachwedd 2002
am 7 bob nos.
Ymunwch yn yr hwyl drwy gyflwyno -
Dawns, Drama Un Act, Noson Lawen, Cân, Pantomeim, Rifiw, Comedi.
Manylion pellach: 01443 402867
colin.williams@rhondda-cynon-taf.gov.uk

YSGOL GYMRAEG LLANTRISANT YN 25

Pen-blwydd Hapus Ysgol Gymraeg Llantrisant! Dyna oedd neges plant yr ysgol yn ystod tymor yr haf eleni. Cynhaliwyd parti i'r plant i gyd ar iard yr ysgol ar Orffennaf 18fed i ddathlu pen-blwydd yr ysgol yn bump ar hugain.

Daeth Martin Geraint i'r ysgol i ddiddanu'r plant gyda sioe llawn hwyl a sbri. Yn y bore, daeth hofrennydd yr Heddlu dros safle'r ysgol i dynnu lluniau'r ysgol gyfan yn chwifio'n braf ar yr iard. Diolch yn fawr iawn i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon am weithio'n galed i drefnu'r diwrnod arbennig hwn. Diolch hefyd i holl staff yr ysgol am eu hymroddiad a'u cefnogaeth fel arfer!

Yn ogystal â'r parti a'r sioe, trefnwyd Ras Balwnau a Ras Hwyaid gan y Gymdeithas Rieni i godi arian tuag at gronfa'r ysgol ac i nodi'r achlysur arbennig hwn. Codwyd swm sylweddol o arian rhwng y ddwy gystadleuaeth a hoffem ddiolch yn fawr iawn i'r holl rieni a ffrindiau a brynodd balwn neu hwyaden! Daeth hwyaden Richard Henderson yn gyntaf ac enillodd £50! Nid ydym wedi dewis enillydd y Ras Balwnau ar hyn o bryd. Bydd mwy o newyddion cyn bo hir rwy'n siwr!

Blwyddyn addysgol newydd a gwisg ysgol newydd hefyd! Daeth y plant 'nol i'r ysgol y tymor hwn yn edrych yn hyfryd yn eu gwisg ysgol newydd. Penderfynwyd newid lliw y wisg ysgol i borffor eleni fel rhan o'n dathliadau ar gyfer penblwydd yr ysgol. Yr un bathodyn sydd ar y wisg ysgol ond mae'r lliwiau wedi newid ychydig eleni. Ar ôl oriau o waith ymchwil gan Mrs Alyson Hurst, gwelwyd bod angen newid lliwiau'r bathodyn i gyd-fynd â'r lliwiau cywir ar fathodyn Pentref Llantrisant. Da iawn D.I. Hurst! Mae'r plant wrth eu boddau yn gwsigo'r wisg newydd ac yn wir, mae'r lliw newydd wedi codi calon pawb.

Martyn Geraint yn y dathlu

Croeso mawr i blant newydd y Dosbarth Meithrin. Mae 27 o blant wedi ymgartrefu'n llwyr yn yr ysgol erbyn hyn ac yn barod i weithio'n galed gyda Mrs Riggs a Mrs Hurst.

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Eleri Jones, athrawes blwyddyn 4, a Mr Leyton Jones, ei gŵr hi. Ganwyd merch fach i Mr a Mrs Jones, Alys Caitlin, yn ystod gwyliau'r haf. Mae'r ddwy yn gwneud yn dda ac edrychwn ymlaen at weld y babi newydd .

Gwellhad buan i Mrs Flo Price, glanhawraig yr ysgol, sydd ddim wedi bod gyda ni am sbel go hir nawr oherwydd salwch. Gobeithiwn ei gweld hi'n ôl gyda ni cyn bo hir.

Daeth cyn-ddisgybl, Catherine Scott atom y tymor hwn i arsylwi ar waith yr athrawon cyn mynd i'r coleg i ddechrau cwrs dysgu. Hefyd, daeth Miss Anna Jones nol atom gyda Catherine. Buodd Anna gyda ni am flwyddyn fel cymorth athrawon llynedd. Pob lwc i'r ddwy ohonynt!

Llongyfarchiadau mawr i Robyn Howell o ddosbarth Mrs Veck sydd wedi ennill nifer fawr o wobrau yn ddiweddar am farchogaeth. Mae Robyn wrth ei bodd gyda cheffylau ac yn llwyddiannus iawn pan yn cystadlu dros y wlad mewn sioeau.

Robyn Howell

Amser i ymweld â Llangrannog unwaith eto! Mae 65 o blant yn ymweld â'r gwersyll ger y lli eleni ar Fedi'r 20fed. Mae penwythnos llawn hwyl a sbri o'u blaenau gyda nifer o weithgareddau cyffrous megis marchogaeth, sgio a nofio i enwi ychydig. Rwy'n siwr hoffai'r plant a rhieni ddiolch i'r athrawon a fydd yn mynd â'r plant unwaith eto eleni yn ystod eu hamser gwerthfawr. Wrth gwrs, heb gefnogaeth y staff, ni fyddai ymweliad â Llangrannnog yn bosibl.

CYFARFOD BLYNYDDOL

MENTER IAITH

Siaradwr Gwadd

DAFYDD WIGLEY

7.00 - 9.00 pm 29 Hydref 2002

CANOLFAN GELF Y MIWNI

PONTYPRIDD

Offer cyfieithu ar y pryd ar gael - Croeso i bawb

☎ **01443 226386** 📠 **01443 239327**

e ✉ huwthomasdavies@menteriaith.org

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Bethan Griffith

Ffarwelio
Yn ystod gwyliau'r haf, gwelsom deulu Waterworth yn gadael Pentyrch, ac yn symud i fyw i Gaerfyrddin.

Mae Rhys a Lisa Beth nawr yn mynychu Ysgol Bro Myrddin, a Siôn yn Ysgol y Dderwen. Dymunwn pob lwc wrth iddynt ymgartrefu yn eu hardal newydd.

Llongyfarchiadau
.....i'r rheiny ohonoch bu'n llwyddiannus yn eich haroliadau TGAU a Lefel A dros yr haf. Pob hwyl i chi yn eich cyrsiau neu'ch gyrfaoedd detholedig.Mae'n anodd gwybod am bawb, a maddeuwch i mi os nad ydw'i wedi son amdanoch.

Llongyfarchiadau mawr
.....i Zoe Coombes sydd newydd raddio o Goleg Cerdd a Drama Caerdydd, gyda gradd Dosbarth Cyntaf.

.....i Ifan Glyn sydd ar fin dechrau astudio'r Gyfraith yng Ngaerdydd.

.....i Anna Glyn a Medi Warburton wrth iddynt ddechrau 6ed Dosbarth. Pob hwyl a iechyd da i ti Anna yn arbennig wedi dy lawdriniaeth ar dy wyliau.

.....i Lowri Morris, Troed y Garth sydd newydd ddechrau yng Ngoleg y Drindod, Caerfyrddin.

.....ac i'w chwaer Nia sydd, yn ddiweddar wedi pasio ei phrawf gyrru.

Clwb y Dwrlyn
Mae tymor newydd Clwb y Dwrlyn wedi dechrau gyda noson Gwis yn cael ei gynnal yn Ysgol Creigiau gyda'r cwis feistr arbennig—Huw Onllwyn. Ar Pnawn Sul, Hydref 13, bydd 'na daith gerdded lleol i'r teulu cyfan, o dan ofal Don Llewelyn.Yn arferol, rydym wedi bod yn lwcus gyda'r tywydd, ac wedi cael pnawnau braf , tra'n dysgu ychydig o hanes lleol yr ardal . Byddwn yn cwrdd ym Maes Parcio Neuadd y Pentref ym Mhentyrch am 2 o'r gloch. Dewch i ymuno â ni!

Merched Y Wawr
Siân Thomas o Radio Cymru oedd ein gwestai yn noson agoriadol Cangen y Garth ym Mhentyrch. Mewn sgwrs ddiddorol dros ben aeth â ni i fyd yr Aifft.

Croeso
Er mod i wedi croesawu'r teulu Evans, 2 Clawddshon i'r pentref ychydig yn ôl, ond nawr mae'r plant wedi dechrau mynychu Ysgol Creigiau. Felly, croeso i Geraint a Siwan sydd newydd ddechrau yn Nosbarth 3 a 2 . Gobeithio wnewch ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol, a mwynhau ymysg eich ffrindiau newydd.

Apêl
Ga'i apelio ar i chi'r darllenwyr, ddanfon newyddion ata i? Efallai mod i ddim yn ymwybodol o bopeth sydd wedi digwydd yn y pentref. Os clywch rhywbeth a fasai o ddiddordeb i ni gyd (llongyfarch, i ddymuno'n da, i gydymdeimlo, i ffarwelio), beth am gysylltu a mi drwy osod neges drwy'r drws, neu fy ffonio ar 20 892954. Ond gyda'ch cymorth chi, medraf lenwi'r golofn!

Pen-blwydd Hapus, S4C

"Pen-blwydd hapus!" Dyna fydd y gri yn atsain o amgylch Cymru eleni, wrth i S4C ddathlu ei hugeinfed pen-blwydd ar Dachwedd laf.

Mae'n anodd credu fod 20 mlynedd wedi gwibio heibio. Wrth edrych yn ôl ar y blynyddoedd hynny mae rhywun yn teimlo balchder ac yn rhyfeddu at ddawn y bobl dalentog rydym wedi eu magu yma yng Nghymru fach!

O SuperTed i Wali Tomos, o Joni Jones i Dai Jones, mae'r Sianel wedi arloesi wrth ein diddanu a bydd hynny yn parhau dros y blynyddoedd i ddod.

I nodi'r pen-blwydd pwysig hwn, bydd nifer o raglenni diddorol yn cael eu darlledu dros y misoedd nesaf. Gwyliwch allan amdanyn nhw! Dyma flas o rai o raglenni'r dathlu...

Ar noson y pen-blwydd, sef nos Wener, Tachwedd 1, bydd cyfle i fwynhau gwibdaith drwy'r 20 mlynedd wrth i'r gwr bonheddig a ffraeth, Aled Sam, gyflwyno rhaglen arbennig a fydd yn pori ymysg rhaglenni'r gorffennol. Bydd nifer o westeion yn ymuno yn yr hwyl wrth i ni gofio'r dyddiau da wrth edrych ymlaen at y diddanu a'r dyddiau da i ddod!

Uchafbwyntiau'r gyngerdd fawreddog a gynhaliwyd yn Theatr Gogledd Cymru Llandudno a lwyddodd i gwmpasu'r holl dalentau sydd wedi ymddangos ar S4C dros yr 20 mlynedd diwethaf. Noson i'w chofio, yn wir! Ymunwch yn yr hwyl ar S4C nos Sadwrn, Tachwedd 2.

Ar Nos Sul, Tachwedd 3, mewn rhifyn arbennig o'r gyfres boblogaidd Dechrau Canu Dechrau Canmol, mi fyddwn ni'n ymuno yn fyw a Chymanfa Ganu cyd-enwadol yng Nghapel y Tabernacl, Treforys, o dan arweiniad Alwyn Humphreys. Huw Tregelles Williams fydd yr organydd.

Ac mi fydd y plantos wrth eu boddau wrth wylio rhaglen yn llawn cerddoriaeth a sbort, Dydd Gŵyl Hwyl, yng nghwmni rhai o ffefrynnau Planed Plant Bach gan gynnwys Sali Mali, Tecwyn y Tractor; Jac y Jwc, Bwgan a Rhacsyn, Twt a'u ffrindiau.

Hanes y frwydr i sefydlu S4C a datblygiad y Sianel wedi hynny fydd pwnc rhaglen ddogfen arbennig fydd yn ein h.arwain trwy gyfnodau tri Prif Weithredwr y Sianel sef Owen Edwards, Geraint Stanley Jones a Huw Jones.

Bydd y rhaglen Plant y Sianel yn ail ymweld â'r plant hynny wnaethon ni gyfarfod yn gyntaf draw ym 1992. Mae'r plant yma yn rhannu pen-blwydd a'r Sianel ac felly yn oedolion erbyn hyn wrth gwrs! Beth yw eu hanes erbyn hyn? Beth yw eu barn am Gymru 2002?

Y FFATRI FENTER YN CAMU 'MLAEN

Ers sefydlu'r Ffatri Fenter y llynedd mae dros 100 o bobl rhwng 16 a 40 wedi derbyn cymorth ganddynt i flasu busnes. O ganlyniad i'r arweiniad hwn, mae 30 cleient eisioes wedi penderfynu cymryd y cam cyffrous hwnnw o gychwyn masnachu – a hynny'n llwyddiannus! Nod y Ffatri Fenter yw annog cymaint â phosib o bobl ifanc i weithredu'n entrepreneuraidd ac i flasu busnes mewn awyrgylch diogel.

Fu hi erioed mor hawdd i wella eich sefyllfa ariannol! Cynydda'r Ffatri eich posibilrwydd o lwyddo wrth drafod a phwyso a mesur eich syniadau gyda chi. Cewch weld pa mor syml yw hi i gychwyn busnes trefnus ac effeithiol wrth dderbyn cyngor adeiladol a chymorth ariannol gan y Ffatri Fenter. Does dim hyd yn oed rhaid ichi losgi unrhyw bontydd, felly pa esgus sydd gennych chi i oedi dim mwy? Gallwch gychwyn busnes tymor hir, busnes tymor byr neu drefnu un digwyddiad, felly **manteisiwch ar syniad, grefft neu allu** sydd gennych, yn union fel y gwnaeth y cleientiaid llwyddiannus canlynol:

Wyn Davies – Cwmni Animeiddio RWD
Bu gan Robert Wyn Davies, mab fferm o Sir Gaerfyrddin ddiddordeb mewn animeiddio a chartŵns erioed, a bellach mae'r diddordeb hwnnw wedi creu cyfle busnes iddo.

Yn ogystal â pharhau i weithio adre ar y fferm, mae Wyn wedi sefydlu cwmni animeiddio R.W.D fel busnes blasu, a bellach mae'n darparu cartwnau a lluniau safonol i bob math o asiantaethau, cwmniau, papurau bro lleol a chleientiaid eraill. Y mae hefyd yn dylunio logos a chreu gwaith celf i safleoedd gwe a llyfrau plant.

Bu'r Ffatri Fenter o gymorth iddo wrth ddatblygu cynllun busnes a strategaeth farchnata, ac mae wrthi yn dysgu sgiliau a thechnegau newydd er mwyn symud ei fusnes ymlaen i'r cam nesaf.
Gyda chymorth ei gydlynydd lleol, llwyddodd Wyn Davies i ddod o hyd i gwsmeriaid newydd gyda mwy o botensial fyth am fusnes.

Sandra Vaughan – Crancod wedi eu trin
Asiant i gwmni yswiriant Provident yw Sandra sy'n wraig i bysgotwr ac yn fam i ddau o blant. Aiff ei gŵr i bysgota crancod yn ddyddiol oddi ar arfordir gogledd Sir Benfro.

Sylweddolodd Sandra fod ei gallu i olchi a pharatoi crancod yn grefft unigryw, a phenderfynodd droi'r grefft hon yn rhywbeth masnachol i ennill ychwaneg o incwm i'r teulu.

Mae Sandra bellach yn wyneb cyfarwydd ym marchnad ffermwyr Abergwaun, ac mae hefyd yn cyflenwi crancod ffres i dafarndai a bwytai lleol. Rhoddwyd safle rhad ac am ddim iddi arddangos a gwerthu ei nwyddau ar stondin y Ffatri Fenter yn Eisteddfod Tyddewi, lle y bu yn darparu cynhwysion ar gyfer arddangosfa goginio yn y babell fwyd yn ogystal. Arddel crancod Sandra y label 'Cynnyrch Sir Benfro'.

Am ychwaneg o fanylion ar sut y medrwch chi lwyddo gyda chanllaw'r Ffatri Fenter, cysylltwch â:

Gwenan Jones Evans
Ffatri Fenter
Menter a Busnes
Y Parc Gwyddoniaeth
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3AH

☏: 01970 625561
🖷: 01970 611366
✉: gwenan@ffatrifenter.co.uk
💻: www.ffatrifenter.co.uk

Ffatri Fenter

www.ffatrifenter.com

Eich cyfle i flasu byd busnes!

Mae'r Ffatri Fenter yma i'ch helpu chi fentro…gyda chyngor, cymorth a chefnogaeth ariannol.

Cyfle i roi syniad busnes 'ar brawf'.



Am fwy o wybodaeth cysylltwch â :
Gwenan Jones Evans, Ffatri Fenter - Menter a Busnes, Y Parc Gwyddoniaeth, Aberystwyth, Ceredigion. SY23 3AH.
☏: 01970 636565 ✉: gwenan@ffatrifenter.co.uk

YSGOL HEOL-Y-CELYN

I ddechrau y mis yma rhaid croesawu cynorthwywyr dosbarth newydd i'r ysgol sef Mrs Pristavec a Mr Volansek yn ogystal ag athrawon cerdd newydd, sef Mrs O'Brien sydd yn dysgu'r delyn a Miss Jenkins sydd yn dysgu'r ffidil. Croeso mawr i chi i'r ysgol. Rhaid hefyd croesawu y plant a rhieni newydd i'r ysgol, ac o beth allaf weld yn amlwg mae'r plant wedi setlo ac i weld yn mwynhau.

Diwedd y tymor diwethaf cafodd nifer o'r plant fynd ar dripiau. Bu blwyddyn 6 ar drip i Oakwood, blynyddoedd 1 a 2 ar drip ar y `Brecon Mountain Railway' a bu y Gwasanaeth Tân yn ymweld â chyfnod allweddol 1 yn yr ysgol, yn rhoi cyngor a gwybodaeth i'r plant. 0'r holl sôn bu pob trip yn llwyddiannus a'r plant a'r staff wedi mwynhau. Fe aeth criw o blant o'r ysgôl i Parti Ponty hefyd ble y bu iddynt berfformio ar y llwyfan yn llwyddiannus iawn. Da iawn pawb a gymerodd ran. Diwedd y tymor hefyd cawsom ddiwrnod Mabolgampau'r Ysgol ble roedd y pedwar llys yn cystadlu yn erbyn ei gilydd drwy'r ysgol o'r Babanod i'r Adran Iau. Y llys buddugol y flwyddyn yma oedd Dewi. Da iawn chi bawb a gymerodd ran yn y Mabolgampau.

Un digwyddiad sydd wedi aros yng nghof y plant y tymor diwethaf yw y Gwasanaeth Ymadael gan blwyddyn 6 ar eu diwrnod olaf yn yr ysgol. Roedd Mr Rees, Miss Griffith a Mrs Williams wedi gweithio yn galed gyda'r plant i greu cyngerdd gwerth ei weld. Ond nid y plant yn unig oedd sêr y cyngerdd, daeth dau chwaraewr rygbi o dîm Pontypridd i'r gwasanaeth i gyflwyno tariannau i rai o'r plant. Roedd y plant yn wên o glust i glust yn cael rhannu eu diwrnod olaf yn Ysgol Heol-y-Celyn gyda'r chwaraewyr Neil Hennesey a Kingsley Jones. Diolch yn fawr i'r ddau am gyfrannu i brofiadau olaf y disgyblion yn yr ysgol.

YSGOL CREIGIAU

Croeso Nôl
Croeso mawr i blant newydd Y Feithrin, Dosbarth 1 ac i Geraint a Siwan a ddaeth o Gaerdydd.
Gobeithio y bydd pawb yn yr ysgol yn cael blwyddyn hapus a llwyddiannus.

Diolch
Diolch i Mr Davies a Mr Williams am yr holl waith yn harddu'r ysgol a'r amgylchedd cyn ac yn ystod y gwyliau. Er bod y gwaith yn dal i fynd rhagddo, mae' n bleser dod i mewn i'r dosbarth ac i'r ysgol drwyddi draw.

Sioe yr Adran Iau
Roedd Sioe yn y neuadd, i'r Adran Iau Saesneg a Chymraeg. Fe ddysgon ni lawer am Oes Fictoria ac roedd yn ddifyr iawn er mai un dyn oedd yn ei chynnal.

Rygbi
Mae Mr Williams a Mr Wyatt wedi dod atom eleni eto i roi gwersi rygbi i bawb ym Mlwyddyn 5 a 6. Mawr yw'r edrych ymlaen at fore dydd Mawrth.

Daeth ymwelydd o'r elusen Barnado's i'r ysgol ddiwedd y tymor hefyd i drafod y gwaith da mae'r elusen yn ei wneud. O ganlyniad bu nifer o'r plant yn casglu arian at yr elusen a llwyddodd yr ysgol i gasglu dros £750 tuag at yr achos.

Daeth Glenda Hexter i'r ysgol ddechrau'r tymor i ddangos ei dawn wrth ganu'r delyn. Mae nifer o'r plant wedi eu hudoli gan ei cherddoriaeth a nawr yn ysu am gael tro i ddysgu canu'r delyn eu hunain.

Mae cwrs llythrennedd i rieni a disgyblion yr ysgol newydd ei sefydlu. Partneriaeth rhwng Coleg Pontypridd a'r ysgol yw'r cynllun, a rwy'n siwr y bydd yn llwyddiant mawr.

I orffen y mis yma mae'r plant a'r athrawon unwaith eto yn mynd am benwythnos i Langrannog o'r 4ydd i'r 6ed o Hydref. Mae pawb yn edrych ymlaen a rwy'n siwr y bydd y penwythnos yn llawn bwrlwm a sbri.

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Emyr Wyn, mab David a Margaret Francis, Parc Prospect, Graigwen ar basio ei arholiadau i fod yn gyfrifydd siartredig. Mae Emyr Wyn yn byw yng Nghaerdydd ac yn gweithio i gwmni Grant Thornton.

Rwyn awyddus i gasglu newyddion am ddigwyddiadau ac hanesion trigolion Pontypridd. Cysylltwch a fi ar y ffon neu e-bost - Pontypridd 405837/ jayne.rees@virgin.net

Os ydych am dderbyn Tafod Elái yn fisol cysylltwch â'r dosbarthwr lleol, Alun Thomas-Pontypridd 485901

Blynyddoedd Cynnar
Mae'r Feithrin wedi cael wyneb newydd dros tua thraean o'r iard. Mae'r wyneb yn un rwber, felly ni fydd y plant yn brifo os y cwympan nhw. Fe fydd plant y Blynyddoedd Cynnar yn elwa' n fawr o'r wyneb newydd.

YSGOL EVAN JAMES

Athrawon Newydd
Dymunwn yn dda i Elin Prys Roberts, Meilir Tomos, Anadele Evans, Nia Williams a Sian Watts ar eu swyddi newydd yn yr ysgol.

Genedigaethau
Llongyfarchiadau i ddwy athrawes o'r ysgol sef, Delyth Kirkman ar enedigaeth ei mab Joseff, a Rhian Ratcliffe ar enedigaeth ei mab Owen Joseff.

Swydd Newydd
Pob dymuniad da i Jayne Rees, gynt o'r ysgol hon, ar ei swydd newydd gydag adran cymorth dysgu'r awdurdod addysg.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Nia Williams

Priodas
Ar ddydd Gwener Awst 9 priodwyd Garan, mab hynaf Gabe a Kerry Treharne, Parc Castell y Mynach ag Emma Jones yn Eglwys Radur. Mae Garan yn gyfreithiwr yn Nhonysguboriau ac mae Emma yn athrawes yn Ysgol Gyfun y Pant, Pontyclun. Pob hapusrwydd i'r ddau yn eu cartref newydd ym Mhontcanna.

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i Esme ac Iwan a'r plantos ym Mharc y Bryn. Bu farw tad Esme yn sydyn wedi gwaeledd cymharol fyr, yn ysbyty Glangwili. Yn Aberporth yr oedd cartref John Alfryn Gibby, tad Esme a gŵr annwyl Tegwen. Athro ydoedd Mr Gibby cyn ymddeol ac roedd yn ŵr tyner ac addfwyn iawn fel y gallai Caryl, Owain, Dafydd a Seth ei wyrion a'i wyres dystio.

Llongyfarchiadau ...
... i'r holl ddisgyblion gafodd ganlyniadau wrth eu bodd yn arholiadau'r haf yma. Catrin Middleton a Rosanne Stenner gafodd gasgliad ardderchog o raddau TGAU. Plant y chweched wnaeth yn dda yn eu harholiadau AS - Jonathan Thomas ac Arwyn Davies; disgyblion Lefel 'A' ennillodd raddau da fydd yn eu galluogi i ddilyn cyrsiau prifysgol yn fuan - Huw ap Rhys, fydd yn mynd i Brifysgol Bryste wedi iddo gwblhau blwyddyn 'mas' yn hyfforddi pobl ifanc yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn; Elin Haf sy'n cychwyn ym Mhrifysgol Abertawe a Sara Canning sy bellach yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Caerdydd.

Llongyfarchiadau arbennig i Elin a Sara ar ennill 3 gradd A yn eu harholiadau Lefel 'A'. Dymuniadau gorau i bawb sy'n cychwyn ar lwybr newydd y mis hwn.

Garan ac Emma

Graddedigion
Mae Gethin Hooper a Dafydd Chapman wedi graddio yr haf yma. Llongyfarchiadau i'r ddau a phob dymuniad da i Dafydd yn ei swydd newydd yn Ffynnon Taf ac i Gethin yntau sy'n parhau gyda'i astudiaethau er mwyn cymhwyso'n bensaer.

Mwy o lwyddiant cerddorol
Da iawn chi Geraint a Catrin Herbert ar eich llwyddiant arbennig yn eich arholiadau cerdd yn ddiweddar. Geraint yn ennill ei radd 2 gyda chlod ar y delyn a Catrin yn ennill ei gradd 2 hithau gyda chlod ar y corned. Enillodd Astrid Morgan ei gradd 2 yn ei harholiad telyn hithau. Da iawn chi a daliwch ati i ni gael cofnodi eich llwyddiant pellach.

Croeso Begw!
Cyrhaeddodd Begw Non jest cyn diwedd mis Awst i lonni aelwyd y Parchedig Gareth a Bethan (Elis-Owen) Rowlands yng Nghaerffili. Llongyfarchiadau deulu bach a phob bendith i'r dyfodol.

Ffarwelio
Anaml iawn y byddwn yn ffarwelio â chyfeillion ond er curo'n ffyddlon ar eu drysau yn Nôl y Felin ches i ddim ateb, ond clywais gan gymdogion trist bod Gwenno a Marc wedi symud i gartref newydd ger Rhydlafar a Carys Non hithau wedi symud i'r un ardal. Dymunwn pob hapusrwydd iddynt yn eu cartrefi newydd a gobeithio y gwnant barhau i fod yn ddarllenwyr Tafod Elái.

Cylch Ti a Fi Creigiau
Bore Gwener
10 - 11.30am
Neuadd y Sgowtiaid

Cylch Meithrin Creigiau
Bore Llun - Iau 9.30 - 12am
Neuadd y Sgowtiaid
Am fwy o fanylion ffoniwch Ceri ar 02920 890009

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysylltir â
Hefin Tomos
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
Ffôn: 029 20484816



Llongyfarchiadau i Ywain ap Rhys ar lwyddo yn ei rownd ar y rhaglen deledu LaBamba ar draethau Ibiza ac ennill noson mas gyda phencampwraig yr wythnos.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

GWELLHAD BUAN
Dymunwn wellhad buan i June Griffiths, Heol Berry, Gwaelod y Garth sydd wedi bod yn derbyn triniaeth ar ei phenglin yn yr Ysbyty yn Llantriaant yn ddiweddar. Bu June a Malcolm yn geidwaid y Capel yn Efail Isaf am flynyddoedd cyn symud i fyw ym mhentref Gwaelod y Garth. Dymuniadau gorau i chi June.

Trist yw deall fod Maralyn Watkins' Brynawel, Heol y Parc wedi bod yn Ysbyty Dewi Sant ym Mhontypridd am gyfnod hir. Dymunwn adferiad iechyd buan iddi hithau hefyd.

GENEDIGAETH
Llongyfarchiadau i Rhian ac Adam Light o Gaer-wynt (gynt o Frynawel, Heol y Parc) ar enedigaeth mab bychan, Thomas Morgan. Rwy'n siwr fod Maralyn Watkins yn falch iawn o'i ŵyr bach newydd. Brysiwch adre' o'r ysbyty i chi gael mynd i weld Thomas Morgan,

SYMUD YN ÔL I'R PENTRE
Croeso i Charlotte a Paul Lloyd sydd sydd wedi symud o Cross Inn i fyw yn Woodlands, Heol Dowlais. Merch hynaf Ian a Joan Smith, Heol y Ffynnon yw Charlotte. Croeso nol i'r pentref. Dymuniadau gorau i Rhodri a Lisa Samuel ac Emily sydd wedi symud o ardal Meisgyn i Heol Lodwig, Pentre'r Eglwys. Un cam fach arall Rhodri ac fe fyddi dithau nôl ym mhentre'r Efail Isaf.

GWELD Y BYD
Mae Sian merch Dave a Mary Thomas, Heol y Ffynnon wedi gadael y pentre' am flwyddyn o seibiant yn Awstralia,. Fydd Sian ddim yn unig ar ôl cyrraedd Awstralia gan fod un o'i ffrindiau o'r pentre', Menna Israel yno yn aros amdani i'w chroesawu. Rwy'n siwr y bydd Falmai Arnold, Heol y Ffynnon yn gweld eisiau ei hwyres tra fydd hi i ffwrdd.

ARHOLIADAU.
Llongyfarchiadau i holl ddisygyblion Ysgolion Llanhari a Rhydfelen a wnaeth mor dda yn yr arholiadau yr Haf eleni. Pob llwyddiant i chi i gyd gyda'ch swyddi. a'ch arholiadau yn y dyfodol.

NEWID BYD.
Bu adroddiadau yn y cyfryngau'n ddiweddar yn son fod mwy o fyfyrwyr am hyfforddi i fod yn athrawon, ac yn wir clywyd am ambell un yn gadael gyrfa ac yn mynd i ddysgu. Un o'r bobl yma yw Karen Williams, merch Colin a Shelagh Griffiths, Heol Y Ffynnon. Mae Karen wedi rhoi'r gorau i'w swydd yn y Banc yn yr Eglwys Newydd ac wedi penderfynu dilyn Cwrs Hyfforddiant i fod yn athrawes yn y Coleg yng Nghaerdydd. Pob lwc i ti Karen.

Y TABERNACL

Bedydd.
Braf iawn oedd cael croesawu teuluoedd Iwan a Nia Rowlands o Aberystwyth ac o'r Rhondda i'r Oedfa Gymun fore Sul Cyntaf Mis Medi i ymuno yng ngwasanaeth bedydd Steffan Llwyd.

Trip yr Ysgol Sul
Erbyn y daw'r rhifyn yma o'r Tafod o'r wasg fe fydd plant yr Ysgol Sul a'u rhieni wedi bod ar wibdaith i Barc Margam ac i'r "Aquadome" yn Aberafan.

Suliau Mis Hydref.
Hydref 6ed Oedfa Gymun o dan ofal y Gweinidog
Hydref 13eg Gwasanaeth Diolchgarwch
Hydref 20fed Y Parchedig T.J. Davies.
Hydref 27ain Y Parchedig D. Eirian Rees.

Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

Croeso
Croeso i Miss Kate Thomas i'r ysgol sydd yn dysgu blwyddyn 4 a 5. Croeso hefyd i Mrs. Lowri Phillips a fydd yn dysgu'r delyn a Miss Sian Jenkins a fydd yn dysgu'r ffidil. Dechreuodd Miss Jodie Burrows fel ysgrifenyddes dros dro yn absenoldeb Mrs. Pam Stallard sydd ar gyfnod mamolaeth. Yn ystod mis Medi hefyd daeth Rebecca Swales o Bontyclun i arsylwi cyn dilyn cwrs dysgu yng Nghaerdydd. Diolch iddi am ei chymorth.

Bae Caerdydd
Aeth blwyddyn 6 i Fae Caerdydd ar ymweliad i astudio'r bae fel ardal gyferbyniol. Cafwyd diwrnod hwylus a buddiol.

Llancaeach Fawr
Ym mis Medi hefyd aeth disgyblion yr adran Iau i Lancaeach Fawr i astudio bywyd yn oes y Stiwartiaid. Roedd pawb wrth eu bodd.

C. Rh. A.
Ar ôl ail ffurfio ym mis Medi mae'r gymdeithas eisioes wedi trefnu sioe ffasiynau yn neuadd yr ysgol ar nos Iau, Hydref 10 . Croeso i bawb.

Pentre Ifan
Aeth Miss Petra Davies a 5 o ddisgyblion yr ysgol am dridiau ym mis Medi i Bentre Ifan. Cafwyd profiadau diddorol yno a'r cyfle i gyd-gymdeithasu a chyd-weithio gyda disgyblion ac athrawon ysgolion eraill dalgylch Rhydfelen.

Llangrannog
Bydd disgyblion 5 a 6 yn mynychu penwythnos yn Llangrannog ar Hydref 4-6. Mae'r plant a'r athrawon yn edrych ymlaen at y gweithgareddau di-ri.

Diolchgarwch
Cynhelir ein gwasanaeth diolchgarwch ar ddydd Iau, Hydref 17. Ein bwriad eleni yw casglu at elusen ,'Gofal Cancr Marie Curie'.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

BETHLEHEM CWMLAI
Ar Sul 8fed o Fedi cynhaliwyd cyfarfodydd diolchgarwch ym Methlehem Cwmlai, pryd y gwasanaethwyd gan y Gweinidog y Parchedig Ernie Banwell BA, gydol y dydd. Llawer o ddiolch i'r aelodau a ffrindiau am gasglu yr holl gynnyrch, a'u dosbarthu i oedolion y cylch. Diolch yn fawr iawn.

Ar brynhawn Dydd Mawrth 16eg Fedi cynhaliwyd Rali yr henoed, cafwyd hwyl arbennig. Llawer o ddiolch i'r rhai fu yn paratoi.

CYFEILLION YN GELLISEREN
Mae Mr Dilwyn Llewelyn yn ôl yng nghartref Gelliseren ar ôl bod am gyfnod yn ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cael triniaeth, ag yn teimlo lawer iawn yn well.

Hefyd mae Mrs Cassy Entwhistle hithau wedi dychwelyd i Gelliseren ar ôl treulio chwe wythnos yn ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cael triniaeth. Mae'r ddau yn gyn aelodau o Ainon. Pob bendith iddynt.

Mae un arall o gyn aelodau Ainon sy yn awr yn aelod yng Nghapel Y Ton, sef Mrs Ivy Priddle Tylchawen, yn ysbyty Llwyn Y Pia am bythefnos, er mwyn i'w merch Jane a'i gŵr gael mynd ar wyliau sydd yn cynnwys Hong Kong a dinasoedd eraill yn y dwyrain pell.

MARWOLAETH
Cydymdeimlad dwys a Mr Fred Croad ar golli ei wraig Nansi yn sydyn iawn. Mae Fred wedi bod yn gadeirydd clwb yr henoed Tonyrefail a hithau yn weithgar iawn yn y clwb hyd at yn ddiweddar, ag ar wahanol bwyllgorau. Collodd ei frawd ryw flwyddyn yn ôl a oedd ryw flwyddyn neu ddwy yn iau nag ef, Mae ei frawd Billy yn gynghorydd cymuned ag yn byw yn Edmonstown. Bu gwasanaeth angladdol Nansi ar brynhawn Mawrth 17eg o Fedi. Y lle gorffwys ym mynwent y Trane Tonyrefail. Pob bendith i Fred a'r teulu.

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Betsi Griffiths

PENBLWYDD HAPUS
Penblwydd hapus i Mr Myrddin Roberts Bron Awel Cambrian Avenue a ddathlodd ei benblwydd yn 95oed ar Fedi 4ydd. Bu Myrddin sydd yn aelod o Gapel Moreia yn helpu ei dad i adeiladu'r capel yn ystod Streic 1921. Gweithiodd ar hyd ei oes yn Pwll y Glenavon ac ef erbyn hyn yw'r glöwr hynaf yn y cwm. Llongyfarchiadau Myrddin a dymunwn lawer penblwydd eto.

YMWELD Â FFRAINC
Amser i adnewyddu hen gyfeillgarwch ac i weld cyfeillion yw Gŵyl Banc Awst i Gymdeithas y Spartans. Eleni tro Gilfach oedd hi. i ymweld â ffrindiau yn Ffrainc. Aeth 42 o bobl yn blant ac yn oedolion i bentre Montsoreau ar lan y Loire am y I2ed tro ers cychwyn y cyfeillgarwch yn I979. Wedi cyrraedd cafwyd croeso yn y Cafe du Mail ac yna yn y Ganolfan Gymdeithasol cyn mynd i'r cartrefi. Roedd penwythnos diddorol wedi ei drefnu ar eu cyfer. Bob blwyddyn mae taith arbennig er mwyn dysgu mwy am hanes a diwylliant ein gilydd ac eleni aethpwyd i Abaty Fontevraud lle claddwyd y brenin Richard Coer du Lion. Chwaraewyd y gem pêl-droed flynyddol Gilfach Goch V Montsoreau ac er i Gilfach golli y tro hwn 'doedd dim ots ac ni amharwyd ar y cyfeillgarwch. Noson cyfnewid anrhegion yw Nos Sul ac aethpwyd i Glwb Nos anarferol Lucifer ar gyfer y noson, - mae' n anarferol gan ei fod mewn ogof yn y graig yn Saumur. Gwawriodd bore Dydd Llun yn rhy gyflym o lawer ac roedd yn amser i ffarwelio a'r ffrindiau ar lannau Loire a throi tua thre. Mae'r Spartans yn edrych ymlaen yn awr at groesawi'r cyfeillion o Montsoreau i'r Gilfach y flwyddyn nesaf.

CYNLLUN CHWARAE
Ble mae'r plant? 'Does neb yn chwarae ar hyd y lle. Neb yn gwneud drygioni. Na 'doedden nhw ddim o gwmpas y Ile yn gwneud drygioni roedden nhw yn y Ganolfan Gymunedol yn y Cynllun Chwarae. Roedd Thema Ganol Oesol i'r gweithgareddau eleni . Buon nhw' n ymweld a phentre ganol oesol ac â chastell a gwneud gwisgoedd a dysgu sgiliau jyglo a sgiliau syrcas gyda Carol ac Ant o Dynamix Abertawe. Diolch i Julie Kelly Swyddog Datblygu'r Celfyddydau am drefnu gweithgareddau oedd mor ddiddorol. Ar ddiwedd y cynllun cafwyd Gwledd Ganol Oesol a Ffair. Llongyfarchiadau i'r staff ac i'r Gwirfoddolwyr a roddodd mor hael o'u hamser.

CWLWM BUSNES Y CYMOEDD

HUW JONES

Cyngor Chwaraeon Cymru

"Y BUSNES CHWARAEON 'MA"

6.00pm – 15/10/2002

CANOLFAN MENTER , PARC NAVIGATION, ABERCYNON

Menter Iaith ☎ 01685 877183 Translation equipment available.

menter a Busnes

WDA

Rhondda Cynon Taf

Pentyrch a'i Gymeriadau

Rhan o erthygl gan Don Llywelyn a ymddangosodd yn Llafar Gwlad yn ddiweddar

Cefais fy ngeni mewn pentre bach ar lechweddau Mynydd y Garth - yr ucheldir sy'n edrych i lawr ar ddinas Caerdydd. Mae Pen-tyrch erbyn hyn yn rhan o'r brifddinas ei hunan ond trwy gydol yr oesoedd, roedd gwahaniaethau mawr rhwng y ddau le o safbwynt ein ffordd o fyw, ein diwylliant ac yn enwedig ein hiaith. Hyd at 1974, sef amser y newidiadau mawr yng nghyfundrefn llywodraeth leol, roedd cofnodion Cyngor Plwyf Pen-tyrch yn ddwyieithog. Ers hynny, mae'n flin gennyf ddweud, mae busnes y Cyngor Cymuned yn uniaith Saesneg.

Mae fy ngwreiddiau yn ddwfn yn yr hen blwyf yma ac fel pob brodor arall, rwyf yn ymwybodol iawn o'r rhan mae Pen-tyrch wedi chwarae yn hanes yr ardal. Mae yna draddodiad bod pobl gecrus iawn yn byw yma - fel y gellir dychmygu oddi wrth hen ddywediadau fel 'Rhwng gwŷr Pen-tyrch a'i gilydd' a 'Bit rhyddoch chwi gwŷr Pen-tyrch!' A beth am yr hen driban gynt a oedd yn sôn braidd yn ddiraddiol am drigolion Pen-tyrch?

Pan fo Pen-tyrch yn llawan
Heb falais na chenfigan,
Fe fydd y mêl yn dod o'r cwar
A ffigysh ar y ddraenan!

Yn sicr, mae Pen-tyrch wedi ymladd yn gryf ac yn ddewr dros y canrifoedd i gadw'i gymeriad arbennig. Yn ôl yr Athro Griffith John Williams, 'Bu Pentyrch erioed yn enwog am ei Gymreigrwydd, am ei sêl dros bopeth Cymreig . . . pan oedd yr ardaloedd cylchynol yn cael eu boddi gan fôr o Seisnigrwydd, parhaodd yr iaith yma yn hoyw ac yn dirf'. Tua deng mlynedd ar hugain yn ôl, buasai'n deg dweud taw Cymraeg oedd iaith gyntaf yr hen frodorion i gyd, gydag amryw o'r canol oed hefyd yn dal eu gafael ar y famiaith. Yn gynnar yn y chwedegau, roedd yr Athro 'G.J.'



Tom a Trefor Davies gyda'r Fari Lwyd c. 1938

wedi fy annog i fynd allan gyda recordydd sain i siarad a hen frodorion Pen-tyrch rhag i'r dafodiaith ddiflannu am byth. Erbyn hyn, mae gennyf gasgliad amhrisiadwy o ddeuddeg awr o leisiau fy mro ar dâp: lleisiau sy'n dangos tinc yr hen Wenhwyseg (curiad calon yr hen Bentyrch) yn llawer gwell nag y gallwn i. Mae'n bwysig cofio mai hon oedd y dafodiaith a siaredid gan ddegau o filoedd o Gymry hyd at hanner can mlynedd yn ôl - y Wenhwyseg sy'n perthyn i ddwyrain Morgannwg a Gwent: iaith Merthyr Tudful, y Rhondda, Aberdar, Maesteg, Pontypridd, Bargoed, a Rhymni; y Wenhwyseg a fu'n famiaith i lawer o gewri'r de: Dr Joseph Parry, Dr William Price, Dic Penderyn, Islwyn, Mabon ac yn y blaen.

Mae i bob tafodiaith ei hynodion diddorol. Ym Mhen-tyrch, nid 'glowr' sy'n gweithio dan ddaear ond 'gloiwr'; ac nid hawdd nac esmwyth yw ystyr y gair 'rhwydd' . . . dim ond 'cyflym yw hwnnw. Dwedent: 'Dera 'ma'n rhwydd bachan bech' . . a 'Duw, me fa'n gallu retag yn rhwydd!' Nid Sioned yw Janet ond 'Shenad'. Lle mae'r gogleddwr yn dweud 'yndi mae o'; mae'r gorllewinwr yn rhoi 'Odi ma fe'; ym Mhen-tyrch: 'Odi me fa!' Wedi'r cyfan, pedair iaith wahanol sydd gennym yng Nghymru, sef 'Cymraeg' yn y Gogledd, 'Cwmrag' yng Ngheredigion, 'Cymrag' yng ngorllewin Morgannwg ac yn Nwyrain Morgannwg a Gwent, 'Cymreg' yw hi. Weithiau y dyddiau hyn, mae'r dafodiaith yn destun gwatwar. Mae rhai'n chwerthin wrth ei phen wrth glywed y llafariaid yn culhau a'r cytseiniaid yn caledu; ond mae 'na burdeb hefyd. Wrth gwrs mae 'na debygrwydd (camarweiniol) rhwng rhai ffurfiau y Wenhwyseg a llefaru sir Drefaldwyn gyda 'cel'
, 'bech' a 'gleri . . . a chyffelybrwydd a Gwynedd gyda `pocad', petha', 'ceffyla', 'bora', 'hanas' ac yn y blaen. Y gwir yw fod y cyfan yn cyfrannu at gyfoeth ein hiaith.

I mi wrth gwrs, mae'r acenion lleol yn swnio'n hollol naturiol. Wrth recordio llais Edmund Llewellyn (Emwnt Siedi, neu 'Shedi' oblegid taw Shadrach oedd enw ei dad-cu) gofynnais iddo a oedd e'n cofio un Twmws William. 'Odw' oedd ei ateb. 'Wy'n cofio fa 'net . . . roedd yn dwad 'ma acha ceffyl acha dydd Sul o Bontclown. Roedd yn dicyn bech yn drwm o glwad. Fe brotiws a Shenad, merch Ianto Nant yr Arian, cefnithar Shoni bachan Aron ac yn wer i William "tred clwm".'

Ar y tapiau mae llawer o sôn am gymeriadau lliwgar, yn eu plith beirdd gwlad, cantorion, ymladdwyr, helwyr ac arwyr y cae rygbi. Doedd dim testun gwell na gorchestion tîm rygbi Pen-tyrch i droi sgwrs yn sgarmes, ond wrth gwrs, yn yr ardal hon, 'y dem' oedd hi ac nid 'y tîm' (tem o geffyla yw'r tarddiad). Pan oedd y bechgyn lleol yn chwarae rhywle yng Nghaerdydd roeddynt yn cael eu hystyried yn estroniaid oherwydd eu hiaith a'u hymarweddiad drygionus. 'The Welshies are down from the hills!' oedd y gri. Dim ond chwe milltir i ffwrdd ond roedd yn fyd gwahanol!

Rhyw bymtheg cant o flynyddoedd yn ôl, roedd Pen-tyrch fel pob cwr a chornel arall o Forgannwg yng nghanol deffroad crefyddol. Daeth Catwg, un o ffigurau mwyaf pwysig yr Eglwys Geltaidd gynnar i'r ardal a sefydlodd 'gaethbentref' (a bond village) ger ffynnon yma. Fe'i gelwir yn Ffynnon Gatwg hyd heddiw a

Nant Gwladus (wedi ei henwi ar ôl mam Catwg) yw'r ffrwd sy'n dal i redeg ohoni. Nid oedd pawb o lynwyr Catwg Sant yn y pentref yn haeddu cymaint o ganmol a'r dyn da hwnnw. Bechgyn drwg oedd rhai ohonynt i ddweud y lleiaf! Er enghraifft, yn ystod teyrnasiad Elisabeth I, cafodd trosedd frawdwrus ei chyflawni gan berchennog Gwaith Haearn Pentyrch. Bu Edmund Mathew yn gwerthu dryllau a phelau cyflegr i'r Sbaenwyr am ugain mlynedd hyd iddo gael ei rwystro gan orchymyn y Cyfrin Gyngor yn y flwyddyn 1602. Nis gwn i a oedd gan Edmund gydymdeimlad ag achos Sbaen; mae'n debygol taw menter fasnachol lwyr ydoedd.

Un o'n cyn-drigolion gwir ganmoladwy oedd John Jones. Cafodd ei eni yn Llwyndaddu Pentyrch yn y flwyddyn 1645. Dangosodd addewid cynnar fel ysgolhaig a chafodd ei dderbyn gan Goleg yr Iesu, Rhydychen pan oedd yn ddwy ar bymtheg oed. Yn fuan fe ddaeth yn gymrawd o'r coleg hwnnw. Wedi graddio'n gyntaf yn y celfyddydau daeth wedyn yn ddoethor yn y gyfraith. Gweithiodd fel meddyg yn Windsor ac yn 1691 penodwyd ef yn Ganghellor Llandaf.

Yn 1683, cyhoeddodd draethawd yn Lladin ar glefydau trofannol, a thua 1700; yn ôl Llyfr Plot (The Natural History of Oxfordshire), dyfeisiodd gloc a gai ei weithio gan awyr yn pasio trwy feginau lledr. Trist yw'r ffaith bod athrylith John Jones wedi'i esgeuluso'n llwyr gan haneswyr gwyddoniaeth yng Nghymru.

Yn fy nghyfnod i, un o'r cymeriadau sy'n sefyll maes yn fy nghof yw Tom Jenkins (Twm Crydd). Rhyw ddiwrnod, roeddwn yn trafod tarddiadau enwau'r ffermydd lleol. Mae enwau Cymraeg yn ei phurdeb o'n cwmpas hyd heddiw - wrth feddwl am 'Llwyn y Brain', 'Hendrescuthan', 'Coed Rhiw Ceiliog', 'Llwyn yr Eos' ac yn y blaen - mor swynol ag erioed a sawl un yn cynnwys enwau adar. Cofiaf Twm yn sôn am yr enw 'Llwyn y Brain' ac wrth wrando arno yn dweud ei stori, roeddwn yn ymwybodol o'r elfennau sylfaenol chwedlonol yn ei chynhwysiad. Yn ôl Twm, roedd bachgen yn gwarchod y llafur (hynny yw, yr yd) rhag yr adar.

Tŷ Gwellt, Pentyrch

Y Gilwasg, Pentyrch

Roedd y crwt yn defnyddio dryll wedi ei lenwi a hoelion yn lle 'shots'. Pan welodd y brain yn y coed, saethodd atynt. Fel roedd yr hoelion yn mynd trwy goesau'r brain, roedd yr adar yn cael eu glynu'n sownd ar y canghennau. Wrth i'r adar hedfan i ffwrdd, tynnwyd y coed o'u gwreiddiau. Glaniodd y llu gyda'u llwyth enfawr mewn cae yn swydd Henffordd lle'r oedd da (gwartheg) brown yn pori. Cafodd y da gymaint o sioc aeth eu hwynebau'n wyn. Felly fe grewyd brid newydd! ('White faced Herefords!')

Twm Crydd oedd yn torri gwallt 'mrawd a fi pob yn ail wythnos ac yn ddi-baid y bydde fe'n tynnu'n coesau ynglyn a'n tad-cu 'Dic Soar'. Roedd Twm tua'r un oedran a Dic ac roedd yn gwybod pob dim amdano. Yn ôl Twm, pan yr oeddynt yn ifanc, fe syrthiodd Dic mewn cariad â merch o'r enw Mary Israel a fu'n byw ar fferm Craig Gwilym - ond roedd llaw yr eneth fach honno wedi ei gaddo i fab y ficar. Felly byddai Twm yn canu tra oedd e'n tocio'n gwallt:

Y Deryn Du pig felan
A aed di drostoi am dal
Oddi yma i Graig Gwilym
A disgyn ar y wal
A gwed wrth Mari Isral
Am bido bod mor ffol
A charu meb y ffirad
A gadael Dic ar ôl!

Wrth gwrs, ar y tapiau, mae'r lleisiau yn sôn am genedlaethau cynharach na fy ffrind Twm. Maen nhw'n gyrru'r gwrandawr yn syth i r gorffennol, at gyfnod lle'r oedd llai o ffwdan a ffys - pan oedd yr holl blwyf bron yn uniaith Cymraeg. Peth arall yr ydyn ni'n codi o'r tapiau yw hiwmor naturiol y trigolion. Fe gewch chi beth blas o hyn tra bod y siaradwyr yn cyfeirio at feirdd gwlad y pentref. Mae cywilydd arnom ni am fod cyn lleied o'u gwaith nhw wedi goroesi. Gafodd ychydig iawn ohono ei sgrifennu lawr wrth gwrs. Roedd y traddodiad yn gryf gyda chystadlaethau yn cael eu cynnal yn gyson yn y tafarnau yn ystod misoedd y gaeaf. Hefyd, a allwch ddychmygu'r olygfa yng Nghefn Bychan ar nosweithiau'r haf pan oedd y beirdd yn ymgynnull o gwmpas yr hen ffwrwm: 'Y fainc farddol'. 'Angladd y Mochyn' oedd y testun ar un achlysur a dyma waith Oli Pritchard am y digwyddiad hwnnw:

Mae holl drigolion Cefn Bychan
Wedi cael eu taro'n syn
Trwy i angau ddod mor sydyn
A thorri lawr y mochyn gwyn
Gweithiwr tlawd yr oedd ei berchen,
Ben Drescuthan ydoedd e
Gwnewch gydymddwyn trwy
roddi arian
I gael mochyn yn ei le.
Yn ei angladd roedd personau,
Boneddigion pena'r wlad,
William Pritchard, Betasea
A William Gruffudd, yr hen dad,
Jim gwr Rhoda, Ben Drescuthan
Wil ei frawd a Twm Ton Mawr
Oli Lisa, Dai mab Letis,
Dyna eu henwau'n drefnus 'nawr.

Don Llywelyn

Yr erthygl i'w barhau.

MENTER IAITH

ar waith yn Rhondda Cynon Taf

01443 226386

www.menteriaith.org

Rosfa a Plwmbo yn diddanu criw Cynllun Chwarae Rhydfelen

DAFYDD WIGLEY YN Y MIWNI 29/10/02

Bydd Dafydd Wigley yn westai arbennig yng nghyfarfod blynyddol Menter Iaith yn Y Miwni, Pontypridd ar 29/10/02 gan drafod ***"CREU CYMRU DDWYIEITHOG AC ADDYSGU POBL I FYW YNDDI"*** – mae croeso i bawb, bydd offer cyfieithu, bydd cyfle i chi ofyn cwestiynau a gwneud awgrymiadau i staff a phwyllgorwyr y Fenter. Os ydych chi am cewch gyfle i fod yn aelod o bwyllgorau'r Fenter yn wir mae angen i bobl ddod ar bwyllgorau'r Fenter – does dim llawer o gyfarfodydd, does dim llawer o waith, mae llawer o siarad a chyfle i chi gyfrannu ac arwain y gwaith ymlaen gan gynorthwyo 11 o staff craidd a dros 120 o staff rhan amser mewn dros 30 lleoliad trwy Rhondda Cynon Taf.

CROESO I GRIW COCH Y CYNLLUNIAU CHWARAE!

Mae'r Criw Coch am ddod â bywyd newydd a newidiadau sylfaenol iawn i gynlluniau gofal chwarae'r Fenter Iaith gan droi yn fwy fwy at adloniant a hwyl yn lle'r pwyslais presennol ar ofal. Peidiwch â phoeni - bydd gennym gynlluniau gofal chwarae ar agor rhwng 8.30am a 5.30pm bob dydd o'r gwyliau hanner tymor yr Hydref yn Llynyforwyn, Bronllwyn, Abercynon, Y Cymer, Llanhari a Rhydfelen – ond bydd arlwy hollol newydd o weithgareddau o dan arweiniad y Criw Coch a fydd yn canolbwyntio ar ddiddanu'r plant llawn cymaint â gofalu amdanynt. Gan ddilyn traddodiadau gorau Butlins a'u Redcoats bydd y Criw Coch yn perfformio sgetsus, triciau a chaneuon tairgwaith y diwrnod ar y ddealltwriaeth bod y plant yn mynd i berfformio hefyd er mwyn i bawb gael llawer iawn mwy o hwyl.

BYDD Y CRIW COCH YN CROESAWU SAM TÂN A SALI MALI AR Y CYNLLUN CHWARAE!

Wel ie – maen nhw'n dod i'r cynlluniau chwarae hefyd. Bydd Sam Tân a Sali Mali yn ymuno â'r plant bach ar y cynlluniau chwarae - diolch i gefnogaeth gwych S4C – a brwdfrydedd heintus y Criw Coch – i arwain gemau i'r plant bach a lansio fideos newydd Cymraeg a fydd yn cael eu defnyddio ar y cynlluniau.

BYDD TRYSOR YN HELPU'R CRIW COCH I DDYSGU PAWB I DDAWNSIO A CHANU!

Ar y dydd Mercher bydd y grwp pop TRYSOR, yn dod yn syth o lwyfan Canolfan Gelf Y Miwni lle buon nhw'n diddanu cynulleidfa POPIO ac ysbrydoli perfformwyr ifanc yr ardal i arwain sesiwn dysgu dawnsio a pherfformio – gan wneud eu perfformiad eu hunain ar ddiwedd y diwrnod. Mae'n debyg y bydd gan Y Criw Coch eu cân eu hunain felly efallai y bydd cyfle i bawb drefnu dawns newydd iddi.

CYFLE I'R BECHGYN A'R PLANT HENAF

Weithiau y mae'r plant henaf yn tyfu allan o'r cynlluniau chwarae yn gyflym ond yn ystod wythnos hanner tymor yr Hydref bydd Y Criw Coch yn ychwanegu ymweliadau gan Chwaraeon y Ddraig at y sesiynau nofio rheolaidd i bawb gael cyfle i fwynhau eu hoff chwaraeon yn ystod y cynllun chwarae ta waeth am eu hoedran na rhyw

CLYBIAU CARCO AR AGOR BOB DYDD

Mae'r un elfen o adloniant yn dechrau datblygu o fewn y clybiau carco hefyd ac y mae'r plant yn mwynhau pob math o weithgareddau yn ysgolion Aberdar, Abercynon, Bodringallt, Bronllwyn, Llynyforwyn, Llwyncelyn, Llanharan, Twynyrodyn, Rhydygrug, Pontsionorton, Castellau, Evan James, Heol y Celyn, Tonysguboriau, Tonyrefail, Dolau a Garth Olwg.

CHWILIO AM STAFF I'R CLYBIAU

Mae gwir angen staff ychwanegol arnom – bechgyn yn benodol, dysgwyr efallai, pobl henach efallai, pobl sy'n gallu gweithio rhwng 3.15 – 6pm pob diwrnod ysgol. Pobl sydd eisoes yn gweithio neu cynorthwyo yn yr ysgolion neu am wneud gwaith yn y gymuned. Pobl sydd eisiau rhoi rhywbeth yn ôl i'r system addysg sy'n gwneud cymaint i hyrwyddo'r Gymraeg. Pobl sy'n hoffi plant. Pobl sydd am dderbyn hyfforddiant gofal plant, cymorth cyntaf, glendid bwyd, achub bywyd wrth nofio, bod yn arweinydd chwaraeon. Pobl sydd am ennill tua £70 yr wythnos i gadw'r blaidd o'r drws – mae sawl rheswm da am weithio i ni. Ffoniwch Trystan neu Helen ar 01443 226386 nawr – oriau swyddfa .

ENWEBU POPIO AM WOBR RHAGORIAETH IEUENCTID

Llongyfarchiadau i bawb a fu yn perfformio, trefnu a chefnogi noson Popio yn y Miwni yn ddiweddar. Mae staff y Fenter, Yr Urdd a Chyngor

Rhondda Cynon Taf mor blês gyda'r prosiect ein bod wedi enwebu'r prosiect – sef y bobl ifanc yn bennaf oll gan gynnwys Dawn Williams wrth gwrs – am wobr rhagoriaeth gwaith ieuenctid. Mae lluniau'r noson ar gael ar wefan www.cicio.net os nad oeddech yno ac y mae golygfeydd yr holl ganeuon yn fyw iawn yn fy meddwl i o hyd. Mac y Gyllell oedd y gân fuddugol ond roedd pob un yn werth ei chlywed a gweld a mwynhau. Dwi'n deall y bydd cyfle i rai o'r perfformwyr recordio deunydd newydd Cymraeg yn stiwdio Bocs50 o dan ofal Martyn Geraint felly rwyf yn edrych ymlaen at hynny – ac at weld y dawnswyr yn perfformio eto oedd wedi gweithio yn arbennig o galed ac wedi perfformio yn arbennig o dda ar y noson.

TAIR NEWYDD I CICIO YMLAEN
Noson olaf Dawn Williams, Cydlynydd CIC, oedd noson Popio ond y mae'r Fenter a'r Urdd wedi sicrhau cefnogaeth ariannol gan Gyngor Rhondda Cynon Taf a Bwrdd yr Iaith i dreblu gweithwyr CIC gan gyflogi Amy Davies fel cydlynydd newydd, Victoria Pugh fel cydlynydd ieuenctid a gwaith a Rhian James fel swyddog clerigol newydd i CIC. Bydd y tair ohonynt yn gweithio o Ganolfan Yr Urdd yn Aberdar gan ddarparu gwasanaeth ieuenctid i holl ddisgyblion uwchradd Rhondda Cynon Taf gan gynnwys y disgyblion sy'n dysgu Cymraeg yn yr ysgolion ail iaith.

Mae Amy eisoes wedi dysgu bod rhaid gwneud ymchwil sydyn iawn cyn dechrau unrhyw weithgaredd ac rydym yn gobeithio yn fawr y bydd pobl ifanc y cylch yn manteisio ar y cyfle i ddweud wrth staff CIC yn union pa fath o weithgareddau y maen nhw am eu gweld a helpu trefnu a datblygu'r gweithgareddau hynny. Yn barod y mae gennym grwpiau drama yn Llanilltud Faerdre a Threorci, Dawnsio yn Aberdar a Rhydfelen, Y Syber Caff ym Mhontypridd a Chlwb CIC yn Ysgol Rhydywaun.

Bydd tripiau ar gael i wahanol llefydd adeg haner tymor – manylion gan Amy, Vici a Rhian ar 01685 882299

CWRS MENTRO MEWN BUSNES YN LLENWI YN BAROD
Rhyfedd o fyd! Ar ôl dwy flynedd o geisio perswadio siaradwyr Cymraeg Rhondda Cynon Taf i ddangos diddordeb mewn dechrau eu busnesau eu hunain a darparu cyrsiau i hyfforddi pobl i wneud hynny rydym yn dechrau gweld diddordeb mawr yn sgil llwyddiant amlwg Bocs50 Martyn Geraint a Siop Y Bont Maldwyn ac Ann sy'n tyfu mor gyflym fel bod sôn eu bod nhw am agor siop fawr ar stryd fawr Pontypridd! Deallaf fod 11 wedi cofrestru yn barod felly os oes diddordeb gennych chi ffoniwch Julie Williams yn ein swyddfa yn Aberdar ar 01685 877183

Gan ddechrau ar nos Lun 28/10/02 yng Nghanolfan TEEP Trefforest y mae cwrs rhad ac am ddim i bobl sy eisiau dysgu mwy am sut mae dechrau busnes rhwng 6.30 a 9pm bob nos Lun tan 2ail Rhagfyr o dan ofal Guto Bebb a'i dîm o gynorthwywyr ac arbenigwyr Menter a Busnes yn delio gyda'r broses o gymryd syniad neu ddiddordeb posibl i feddwl beth sy eisiau gwneud, sut mae gwneud heb losgi bysedd, pa gymorth ariannol sydd ar gael, beth yw'r goblygiadau trethi ac ati, sut mae cyflogi pobl, sut mae hyrwyddo neu farchnata, a sut mae llwyddo!

NOSWEITHIAU'R CWLWM BUSNES
Bu Edwina Williams Jones yn annog pawb i "Elwa o Ail Gylchu" yn ddiweddar ac y mae sawl noson Cwlwm Busnes y Cymoedd yn dod i fyny yn fuan sef – Nos Fawrth 15/10/02 Huw Jones Cyngor Chwaraeon "Y Busnes Chwaraeon'Ma". Y mae pob noson yn dechrau gyda phaned am 6pm yng Nghanolfan Morwrol Abercynon gan orffen tua 7.30pm ar wahan i noson Roy Noble a fydd yn ginio Nadolig yng Nghlwb Golff Aberdâr – i ddechrau pan fo pawb yn barod a gorffen ar ddiwedd y stori – wrth gwrs

ADDYSG GYDOL OES A GRANTIAU I'R FFORWM
Mae'r Fforwm yn datblygu yn bartneriaeth i weithio gyda Gwion Rees a phrosiect Cymunedau Yn Gyntaf sy'n brysur yn datblygu cysylltiadau Menter Iaith yn ardal Treorci lle mae Gwion Rees yn gweithio gyda Sian Ifan i gynnig cymorth i bob mudiad a chymdeithas Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf. Eisoes y mae 20 o staff Cymunedau yn Gyntaf wedi dechrau gwersi Cymraeg mewn cydweithrediad â Phrifysgol Morgannwg ac y mae'r Papurau Bro, y Dysgwyr a Merched y Wawr i gyd am fanteisio ar y cymorth sydd ar gael iddynt. Yn ogystal â chynnig syniadau y mae prosiect Cymunedau Yn Gyntaf yn dod ag arian i ddatblygu prosiectau ac i hyfforddi pobl i ddatblygu eu cymunedau eu hunan yn y ffordd y maen nhw'n gweld yn dda – felly – dewch i gyfarfodydd y Fforwm i ddysgu mwy.

FFORWM MUDIADAU CYMRAEG
Mae cyfarfod nesaf y Fforwm yn yr YMCA Pontypridd rhwng 2-4pm ar 16eg Hydref i drafod "Dysgu Gydol Oes" – sef sut mae modd i ni elwa o'r cyfleodd addysg sydd ar gael a bod mudiadau yn elwa o hyfforddi eu staff yn gyson. Bydd ail gyfarfod y Fforwm yn yr YMCA Pontypridd rhwng 2-4pm ar 27/11/02 i drafod grantiau a chymorth ariannol i fudiadau gwirfoddol Cymraeg – gan gynnwys y miloedd o bunnoedd sydd ar gael o dan drefn Cymunedau Yn Gyntaf felly dewch i ddysgu. Ffoniwch Gwion neu Siân ar 01443 440920 neu ewch i'w gweld nhw yn ein swyddfa newydd yn Treorci.

GRANTIAU HSBC A BOREAU COFFI I'R DYSGWYR
Rhian James Aberdar syn delio gyda'r grantiau – 01685 877183 ac y mae boreau coffi yn Pentre Dydd Llun, Aberdâr dydd Mawrth, Aberpennar dydd Mercher, Miwni Pontypridd – diolch John John – dydd Iau, a Llantrisant Dydd Gwener. Mae croeso i siaradwyr Cymraeg hefyd – dyw'r dysgwyr ddim yn brathu onest- dewch i siarad a nhw bydden nhw'n falch o'ch cyfarfod.

CYFIEITHU YN Y GYMUNED
Mae offer cyfieithu ar gael ymhob swyddfa o'r Fenter ac y mae Gwynallt Bowen yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a chyfieithu ar bapur i lawer o fudiadau, cwmnïau a chyrff cyhoeddus – 01685 877183

STEFFAN WEBB
PRIFWEITHREDWR
MENTER IAITH

MAE MANYLION HOLL WEITHGAREDDAU MENTER IAITH A CHYSYLLTIADAU CYMRAEG ERAILL AR GAEL AR ***WWW.MENTERIAITH.ORG***

LLYFR NEWYDD AM SIONI WINWNS

Bu Sioni Winwns yn ymwelydd cyson â Chymru ers dros ganrif a hanner. Cafodd groeso cynnes – wedi'r cwbl onid oedd y Llydawr o ardal Rosko a Kastell Paol (Saint-Pol-de-Leon) yn Frython o'r un tras â ninnau?

Yr un pryd ag y dychwelodd y Sionis i Gaerdydd am dymor arall o werthu yng Nghymru, cyhoeddwyd *Sioni Winwns*, cyfrol newydd am y gŵr taer a lliwgar yng nghyfres Llafar Gwlad Gwasg Carreg Gwalch a fersiwn Saesneg o'r gyfrol, *The Last of the Onion Men*. Yr awdur yw Gwyn Griffiths o Faesycoed, Pontypridd.

Bydd y ddwy gyfrol yn cael eu lawnsio'n swyddogol yn swyddfa Maer Roscoff, "prifddinas" y Sionis ar ddydd Gwener, Hydref 4. Yn ychwanegol at hynny cyhoeddir cyfieithad Ffrangeg, *Le Monde des Johnnies*, ar Dachwedd 8, eto yn swyddfa'r Maer yn Roscoff. Cyhoeddir y gyfrol hon gan Editions le Télégramme, cwmni cyhoeddi'n gysylltiedig â phapur dyddiol dinas Brest, Llydaw, mewn cyweithrediad â Gwasg Carreg Gwalch.

Union 21 mlynedd yn ôl cyhoeddwyd cyfrol gyntaf Gwyn Griffiths am y gwerthwyr winwns, Y Shonis Olaf. Cafodd y gyfrol groeso brwd ac ni chafodd yr awdur lonydd gan y pwnc ar ôl hynny.

Cyhoeddwyd y gyfrol honno'n Saesneg ychydig flynyddoedd wedyn – gofynnwyd iddo wneud rhaglenni radio a chyfrannu'n helaeth i raglen deledu amdanynt.

"Yna yn 1994 gofynnwyd i mi lunio arddangosfa yn darlunio hanes y Sionis," meddai Gwyn. "Un ar gyfer y Cyngor Amgueddfeydd yng Nghymru i'w dangos mewn amgueddfeydd yng Nghymru.

"Y llall i fod yn ganolog i amgueddfa barhaol i'r Sionis yn Rosko – La Maison des Johnnies.

"Cês fy ngorfodi gan y datblygiadau hyn i barhau gyda'r gwaith ymchwil roeddwn i wedi ei gychwyn ddiwedd y saith-degau."

Dywed iddo fod yn ffodus i ddechrau ymchwilio i hanes y Sionis ar yr union gyfnod pan oedd llawer ohonyn nhw'n rhoi'r gorau i'w masnach. "Fe ddalies i ddau o'r hen do – Jean-Marie Cueff ac Olivier Bertevas – ar eu tymor olaf yng Nghaerdydd. Ddaethon nhw ddim trosodd y flwyddyn wedyn.

"Ond ar ôl gwneud y cysylltiadau fe es i drosodd i Lydaw i holi Sionis oedd wedi ymddeol. O'r gwaith ymchwil hwnnw y deilliodd y gyfrol flaenorol.

"Pan ges i'r cais i weithio ar gyfer yr amgueddfa yn 1994 deuthum yn ymwybodol iawn y dylswn feddwl am ysgrifennu cyfrol arall. Unwaith eto roeddwn i'n dal ar nifer o Sionis, nid cyn iddyn nhw ymddeol y tro hwn, ond cyn iddyn nhw farw."

Dywed iddo fynd i chwilio am un hen Sioni o'r enw Jean-Marie Prigent oedd yn arfer mynd i Flaenafon, Gwent.

"Roedd perthynas iddo wedi dweud wrthyf ei fod mewn cartref hen bobol ar gyrion Kastell Paol," meddai Gwyn. "Pan gyrhaeddais y cartref edrychodd y ddwy nyrs yn y cartref yn syn iawn arna i. Roedd yr hen ŵr wedi marw hanner awr cyn i mi gyrraedd a doedden nhw heb gysylltu â'i deulu!

"Erbyn hyn ychydig o'r rhai y bûm yn eu holi am eu hanes sydd ar ôl. Rwy'n meddwl i mi fod yn ffodus i mi ymddiddori yn y Sionis pan wnes i achos erbyn hyn mae'r hen fechgyn bron i gyd wedi mynd."

Mae'r ddwy gyfrol yn rhoi hanes y Sionis o'r cychwyn pan hwyliodd Henri Olivier yn 1828 gyda chriw bach o'i ffrindiau a llond cwch o winwns o Rosko i Plymouth.

O fewn wythnos roedden nhw nôl adre wedi gwerthu'r cwbl. Dyna'r man cychwyn. Roedd y tlodi yn Llydaw yn eu gwthio i fynd ac yr oedd marchnad barod i'w winwns coch unigryw o Fôn i Fynwy, o John O'Groats i Lands End, yn wir o Orkney a Shetland i Jersey a Guernsey.

Mae'r gyfrol yn sôn am ddynion ddechreuodd werthu winwns yng Nghymru pan oedden nhw ond naw oed. Pâr o sgidiau a blwyddyn o rent i'w fam ddi-briod oedd cyflog Jean-Marie Cueff pan ddaeth yn naw oed i Frynmawr am y tro cyntaf wedi'r Rhyfel Mawr. Roedd amryw o'r hen Sionis yn fwy rhugl eu Cymraeg na'u Saesneg – hyd yn oed na'u Ffrangeg. Pobl fel Joseph Olivier a'i fab Michel oedd yn mynd i Gastell Newydd Emlyn, Marie Le Goff (roedd yna ambell Siani, hefyd), a Jean Guivarch oedd yn mynd i Borthmadog. Llydaweg oedd eu hiaith gyntaf a doedd llawer o'r hen rai ddim wedi cael fawr ddim ysgol.

Mae'n stori liwgar ac yn stori o galedi a thlodi, hefyd. Er nad oedd eu cwsmeriaid yn ymwybodol o hynny. Iddyn nhw gwr llawen a ffraeth oedd Sioni.



Gadawodd ddelwedd ddiddorol o'r "Ffrancwr" ym meddwl y Prydeiniwr – sef bod pob Ffrancwr yn reidio beic gyda winwns ar yr "handle-bars". Mae hyn yn ddirgelwch llwyr i'r mwyafrif o bobl Ffrainc.

I'r Cymry, roedd gallu'r Sioni i siarad Cymraeg yn rhwydd wedi creu'r argraff fod y Gymraeg a'r Llydaweg bron yn union yr un fath. Ddwy flynedd yn ôl yr oedd Penarth a Kastell Paol yn dathlu 30 mlynedd o efeillio – yr efeillio cyntaf rhwng tref o Gymru a thref o Lydaw. Diddorol darllen yn y llyfr mae Eugène Grall, hen Sioni yng Nghaerdydd ysgogodd yr efeillio hwnnw.

Dilynodd ffermwyr gogledd-orllewin Llydaw esiampl y Sionis ddechrau'r saith-degau drwy sefydlu eu cwmni fferi – Brittany Ferries, un o gwmniau mwyaf Ewrop erbyn hyn.

Ychydig o Sionis sy'n dod trosodd heddiw. Ond y mae un cwmni o ddynion ifanc yn dod o hyd – cwmni Patrick Mevel sy'n dod i Gaerdydd ac yn mynd oddi yno i bob rhan o Gymru i werthu eu cynnyrch blasus. Yr unig beth i gymharu a'u winwns blasus yw'r gyfrol hon - £4.75, llai na phris rhaffed o winwns!

Pris y gyfrol Saesneg, The Last of The Onion Men yw £5.50 a bydd y gyfrol Ffrangeg yn costio o gwmpas 27 ewro.

Mae Gwyn Griffiths yn awdur dwy gyfrol arall ar Lydaw, *Crwydro Llydaw* a *Llydaw – ei llên a'i llwybrau* a gyhoeddwyd ddwy flynedd yn ôl. Mae hefyd wedi trosi dwy ddrama o waith Tangi Malmanche o'r Llydaweg i'r Gymraeg ac ysgogodd arddangosfa o waith S. Curnow Vosper a welwyd yn Le Faouet, Llydaw, y llynedd.

Am wybodaeth bellach cysyllter â Gwyn Griffiths: 01443 406203 .

Capel Salem Tonteg

Fel llynedd, ymwelodd nifer o Americanwyr â'r ardal am ychydig dros wythnos o amser. Mr. Chester Finnigan a Phyllis Orr o Annapolis, Maryland oedd y ddau a dreuliodd yr amser yng nghwmni aelodau Capel Salem. Profiad braf ac ysbrydoledig oedd eu clywed yn cymryd rhan yn y Gwasanaethau ac yn enwedig mewn Gwasanaeth yn Ysgol Gartholwg lle cafwyd trafodaeth frwd i ddilyn gyda'r disgyblion yn eiddgar am ragor o wybodaeth. Bu gweddill y criw mewn rhannau eraill o'r De, fel Cwmduar a Beddau, ond troiodd rhan fwyaf ohonynt i mewn i Salem am eu Gwasanaeth olaf yng Nghymru ar y 15fed o Fedi.

Llongyfarchwn Dewi Cutts ar ei ganlyniadau Lefel A calonogol dros ben a dymunwn yn dda iddo yn ei swydd gyntaf, dros dro, gyda Chwmni Halifax.

Llongyfarchiadau hefyd i Miss Val Jones ar ddathlu penblwydd pwysig a theimlir ychydig yn eiddigeddus wrth feddwl amdani yn cyflawni'r ddathlu'n yr Elgar Suite yn Neuadd Albert cyn gwrando ar y Proms yno. Diwrnod i'w gofio wrth gwrs ond dymunwn yn dda iddi am y degawd nesaf hefyd.

Aeth Norman a Gwenllian Gill gam ymhellach wrth ddathlu. Fe aethon nhw draw am dro gyda'r teulu i'r Amerig i ddathlu eu Priodas Aur. Llongyfarchiadau cynnes i chi'ch dau ac achubwn ar y cyfle hwn i ddiolch am eich parodrwydd i gefnogi cymaint o achosion a bod mor barod i roi'ch ysgwydd o dan y baich.

Profiad blin gafodd Mrs. Betty Tilling ganol y gwyliau trwy gwympo a thorri ei choes. Mae bellach yn Ysbyty Dewi Sant yn cryfhau ei gwaed cyn derbyn llawdriniaeth. Caiff fod cefnogaeth ei theulu a'i ffrindiau yn gymorth amhrisiadwy iddi i gadw'i hysbryd i fyny ond mynna fod dilyn "Llais y Dydd" yn ddyddiol yn gymorth mawr hefyd. Mae'r ymwelwyr yn teimlo'n well ar ôl bod i weld Mrs. Betty Tilling!

Dymunwn yn dda i frawd Dr. John Pugh, - Vernon – yn ystod ei salwch a danfonwn ein cofion at y teulu cyfan.

Dymuna'n Gweinidog, y Parchedig Peter Cutts, ddiolch i aelodau o'r Gwasanaethau Cymraeg a Saesneg am gefnogi'r Gwasanaeth Teuluol newydd a gynhelir am 11 o'r gloch ar fore Sul.

Y GYMDEITHAS

Mae'r Gymdeithas nol yn ei hanterth ar nosweithiau Gwener (am 7 o'r gloch). Sylweddolwyd fod rhai o'r aelodau wedi cael profiadau cofiadwy dros yr haf a hynny heb fynd allan o Gymru. Un enghraifft o hyn ydy Merle a'i theulu yn cwrdd a modryb i Bryn Terfel mewn lle bwyta yng Nghil y Cwm a hwythau ar eu ffordd yn ol o Soar y Mynydd. Cafodd Mrs. Lynn Cutts a'i thad, ar y llaw arall, sgwrs a'r Archesgob Rowan Williams wrth Eglwys y Santes Non yn ymyl Ty Ddewi. Aeth yn gystadleuaeth wedyn ar pwy oedd a'r profiadau mwyaf ysgubol i'r perwyl hwn ac yma datgelwyd fod dau aelod wedi canu ar lwyfan gyda Bryn Terfel.

Edrycha'r Gymdeithas ymlaen at ymweliad â Chraig y Nos, Castell Cennen a Llandeilo ar yr 21fed o'r mis.

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Meima Morse

Dedllir fod llongyfarchiadau calonnog iawn yn ddyledus i'r plant fu'n sefyll T.G.A.U a Lefel A yn yr ardal hon ac estynnir dymuniadau gwresog iawn i bob un ar y cam nesaf yn ei fywyd.

Erbyn y rhifyn nesaf gobeithiwn y gallwn fanylu ar y camau hyn a dilyn y gwahanol lwybrau mae'r unigolion yn eu troedio.

Pan mae llawer ohonom yn ceisio ymdopi â thymor newydd yn y flwyddyn mae eraill wedi dal ar y cyfle i droi cefn a theithio i'r Amerig am eu gwyliau. Edrychwn ymlaen i groesawi Elaine a John, Averil ac Allan, Lynwen a Dafydd yn ol i'n plith ac r'yn ni'n gwneud ein gorau i gadw llygedyn bach o haul yn ôl i'ch cyfarch! Gobeithio na fyddwch yn rhy hir cyn dychwelyd oherwydd mae'r bwlch hebddoch yn rhy fawr yma.

Yn ôl y posteri mawr a welwn oddiamgylch mae Mr. Robin Morgan hefyd wedi cyrraedd penblwydd sydd ag angen ei ddathlu. Athro yn Ysgol Gyfun y Pant ydy Robin a bu'n fewnwr talentog a Chapten i dîm Rygbi Pontypridd. Mae Dwynwen ei wraig yn athrawes yng Ngwaencelyn. Llongyfarchiadau a dymuniadau da ichi Robin.

STAFF CLWB CARCO

Rhan Amser £5.77 / £5.25 yr awr: 3.30 – 6.00pm

Mae angen staff arwain, cynorthwyo ac wrth gefn arnom yn ein Clybiau Carco.

Manylion a ffurflenni cais oddi wrth:

Menter Iaith

Menter y Cymoedd,Y Gadlys, ABERDÂR, RHCT. CF44 8DL
☎ 01685 877183 🖷 01685 877185
e✉rhianjames@menteriaith.org

Y Gronfa Cyfleoedd Newydd
ADDYSG . IECHYD . AMGYLCHEDD

LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Siân Evans

GENEDIGAETH
Ganed merch fach i Leyton ac Eleri Jones, Meisgyn ddiwedd mis Awst. Enw'r babi newydd yw Alys Caitlin ac mi benderfynodd ddod i'r byd rhai wythnosau'n gynt na'r disgwyl, yn pwyso 5 pownd 6 owns, ond mae'n gwneud yn iawn. Llongyfarchiadau a phob hapusrwydd i chi fel teulu - dwi'n siwr bod y plant yn Ysgol Gynradd Llantrisant yn edrych ymlaen at ymweliad bach gan Mrs Jones (Miss Lewis gynt) ac Alys cyn bo hir.

POB LWC I …
… Carys Lamb sydd bellach wedi graddio ac wedi cael swydd gyda'r Cyd Bwyllgor Addysg yng Nghaerdydd.
… Ceri Anwen a'i brawd Iwan, Portreeve Close, i'll dau wedi penderfynu gwneud ymarfer dysgu, Ceri yn Aberystwyth ac Iwan yng Nghaerdydd.

ARHOLIADAU OFFERYNNOL
Llongyfarchiadau i Tammi Edwards, Gwenan Evans a Gemma Webb ar basio arholiad Gradd I ar y delyn, ac i Elin Davies ar lwyddo yng Ngradd II – y bedair wedi'u hyfforddi gan Mirain O'Brien. Hefyd, mae Mia James wedi llwyddo yn arholiad Gradd I ar y delyn a Gradd II ar y piano yn ddiweddar. Yn olaf, llongyfarchiadau i Eleri Tudor a basiodd arholiad Gradd III ar y ffidil. Daliwch ati bawb!

ADRODDIAD GAN JAYNE COLLIER
Dros y misoedd diwethaf soniais am Jayne, sy'n bedair ar ddeg, a'r ffaith ei bod wedi ei dewis i fynd i'r Ffindir gyda'r 'Guides' fel un o'r cynrychiolwyr o Gymru. Cytunodd i ysgrifennu adroddiad byr o'r hyn a wnaeth a'i phrofiadau yno – dwi wedi siarad â Jayne ac roedd cymaint ganddi i'w ddweud am yr ymweliad mae'n siwr ei bod wedi ei chael yn anodd i grynhoi'r bythefnos i ychydig baragraffau. Diolch i ti Jayne am dy gyfraniad.

ANTUR YN Y FFINDIR

Dechreuodd y daith yng ngorsaf Caerdydd am 9.00 am ar y trydydd ar hugain o Orffennaf. Roedd pawb o Dde Cymru i fod i gwrdd yno ond collodd un ferch, Kate, y trên, yr awyren a'r bws gan ei bod hi'n meddwl ein bod ni yn teithio'r diwrnod wedyn! Cyrhaeddon ni Paddington ac wedyn hedfan i Helsinki.

Treulion ni'r noson gyntaf yn 'Stadium Hostel' Helsinki, yna cwrdd â Kate yn hwyr y noson honno; roedd hi wedi bod yn ffodus i allu dal awyren hwyrach. Y bore wedyn roedd rhaid dal bws i Hanko, yr ardal lle fydden ni'n gwersylla am wythnos.

Roedd yr wythnos o'n blaenau yn llawn gweithgareddau anturus. Tra roedden ni yno aethon ni i rafftio nofio, hwylio, canwïo a llawer mwy. Un o'r gweithgareddau mwya cofiadwy oedd y 'Midnight Hike'. Roedd yn rhaid cerdded tua 4 milltir i ganol coedwig, adeiladu rafft allan o goed a llinyn yna ceisio rafftio o un ochr o'r llyn i'r llall i barhau'r taith gerdded. Ond roedd rhaid treulio noson gyfan o dan y sêr mewn bagiau goroesi. Cafodd bron popeth ei wlychu tra'n rafftio dros y llyn. Roedd y bwyd yn y gwersyll yn Ych a fi! Uwd oer i frecwast bob bore. Hefyd roedd 'Guides' a 'Scouts' yno o'r Almaen, Iwerddon, Lloegr, Awstria, Estonia, Latvia, Y Swistir a'r Ffindir. Aeth yr wythnos

Jayne Collier

gyntaf mor gyflym. Roedd pawb yn drist i orfod gadael eu ffrindiau newydd, ond roedden ni i gyd wedi addo cadw mewn cysylltiad.

Teithion ni nôl i Helsinki mewn llong hwylio enfawr. Roedd hynny yn brofiad yn ei hun. Roedd gan bawb ddyletswyddau e.e. coginio yn y gegin neu codi'r hwyliau a glanhau bwrdd y llong. Roedden ni'n gwneud y dyletswyddau hyn mewn shifftiau o bedair awr. Treulion ni dri diwrnod a dwy noson ar y llong.

Pan gyrhaeddon ni Helsinki, roedd yn rhaid chwilio am orsaf bws i'r safle gwersyll. Roedd y safle yma yn eithaf sylfaenol gan fod rhaid pwmpio dŵr o'r ffynnon a'i ferwi cyn ei yfed. Roedd y tai bach hefyd yn rhai 'compost' ac ond yn cael eu gwagio dwy waith y flwyddyn – Ych a fi! Doedd dim byd i wneud yno ond am dorheulo ac ymlacio, ar ôl yr wythnos brysur diwethaf. Arhoson ni yn y gwersyll (Partio Poukama) am bedwar diwrnod a thair noson.

Penderfynodd pawb dreulio'r tair noson olaf yn y 'Stadium Hostel' gyda chawodydd poeth, gwlâu cyfforddus a bwyd blasus. Ymwelon ni â 'Serena Water Parc' a chafodd pawb amser gwych. Yna ar y diwrnod olaf aethon ni i gyd i siopa i chwilio am anrhegion.

Doedd neb yn gallu credu pa mor gyflym roedd y pythefnos diwethaf wedi mynd. Roeddwn i'n falch iawn pan gyrhaeddon ni nôl i weld pawb yn aros amdanaf yn yr orsaf. Roedd cymaint o straeon i'w dweud, doeddwn i ddim yn gwybod ble i ddechrau. Cefais i amser ffantastic. Profiad wna i ddim anghofio.

Jayne Collier

CYMDEITHAS GYMRAEG LLANTRISANT
Y gŵr gwadd yn noson agoriadol y gymdeithas eleni oedd Alun Wyn Bevan—darlledwr, reffari rygbi, prifathro, trefnydd iaith. Cafwyd torreth byrlymus o straeon diddorol ganddo. Cynhaliwyd y noson yn y Pizzeria Villagio yn yr Eglwys Newydd. Mae'r Gymdeithas wedi paratoi rhaglen ar gyfer y flwyddyn sydd yn cynnwys noson gyda Mererid Hopwood ym mis Hydref, Cinio Nadolig ar y 6ed Rhagfyr a taith trên i Avignon ym mis Mai. Gwybodaeth pellach gan John Llywelyn 01443 218077.

FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

GWOBR I AMGUEDDFA NANTGARW
Llongyfarchiadau i Amgueddfa Grochenwaith Nantgarw sy wedi ennill gwobr Amgueddfa Dreftadaeth y Flwyddyn.

"Creodd rhaglen addysg yr amgueddfa argraff arnon ni," meddai James Bishop, Cadeirydd Treftadaeth Brydeinig. "Yn ddiweddar, trowyd y stablau yn adran addysg, ailadeiladwyd yr odynau a chafodd partion ysgol eu hannog i addurno'r clai."

Dywedodd fod ymroddiad gwirfoddolwyr a ffrindiau'r amgueddfa wedi "ychwanegu dimensiwn newydd". Bydd yr amgueddfa'n derbyn siec gwerth £1,500.

AILAGOR NEUADD BENTRE
Mae Neuadd Bentre Ffynnon Taf wedi ailagor ar ei newydd wedd.

Cafodd ei hadnewyddu ar ôl i'r pwyllgor dderbyn grant oddi wrth Gyngor Cymreig Gweithredu Gwirfoddol ac arian cyfatebol.

"Carwn i ddiolch i'r swyddogion ac aelodau'r pwyllgor am eu hymroddiad a'u gwaith caled," meddai Paul Murphy, cadeirydd y neuadd. "Chwaraeodd ein trysorydd, Josie Thomas, ran allweddol a diolch yn arbennig i'r pensaer Alwyn Jones am ein helpu i baratoi'r cynnig am arian ac i Gareth Dauncey am gynllunio'r gwaith."

Ym 1948 y codwyd y neuadd oherwydd tanysgrifiadau pobol leol a grant oddi wrth Cronfa Les y Glowyr, CISWO. Pan gaeodd pwll glo Nantgarw cyflwynwyd y neuadd i'r pentre.

GWAHARDD AM NAW MIS
Yn Llys Ynadon Pontypridd cafodd dyn o Nantgarw ei wahardd rhag gyrru am naw mis a dirwy o £350.

Roedd Shaun Disney, 33 oed o Oxford Street, wedi gyrru car heb drwydded a gyrru car heb yswiriant. Nodwyd wyth pwynt cosbi ar ei drwydded.

JOHN YW PENCAMPWR Y SIOE
Roedd Sioe Flodau Ffynnon Taf a'r Cylch yn llwyddiannus. Llongyfarchiadau i bawb enillodd ac a gymerodd ran.

Enillydd y sioe oedd John Layman, Caerffili, dderbyniodd Dlws Conqueror. Ei gyfanswm oedd 48 o bwyntiau. Enillodd Dlws Coffa Ivor Jonathan yn y gystadleuaeth winwns ac yn y gystadleuaeth cennin Glyn Jones, Caerffili, oedd yn fuddugol.

Gordon Beech, Ffynnon Taf, oedd yn arddangos y blodyn gorau tra enillodd Jane Dixon, Y Bad Uchaf, Dlws Coffa Ray Toghill am y rhosyn gorau.

Gill Thomas, Gwaelod-y-Garth, oedd yn fuddugol yn yr adran celf flodau. Enillodd Marged Aeron, Gwaelod-y-Garth, Wobor Robin Hood am fod yn fuddugol yn yr adran plant ac Ysgol Gynradd Ffynnon Taf enillodd Gwpan y Cyngor Bro.

DIRWY O £50
Yn Llys Ynadon Pontypridd cafodd Dean Castle, o Garth Olwg, Gwaelod-y-Garth, ddirwy o £50 ar ôl iddo yrru car heb dystysgrif MoT. Bu raid iddo dalu costau gwerth £35.

GWYBODAETH AM HEN FFYNNON
Diolch i un o ddarllenwyr yr Echo am ddanfon llythyr yn sôn am hanes yr hen ffynnon yn Ffynnon Taf.

"Pan oeddwn yn ferch ifanc rwy'n cofio nofio yn y pwll yn Ffynnon Taf yn 1938," meddai Mrs Mary Stevens sy'n byw yn Heol Caedelyn, Yr Eglwys Newydd. "Roedd y pwll a'r ffynnon yn agos at ei gilydd ond nid dŵr y ffynnon oedd yn llifo i'r pwll.

"Roedd Mr Howells yn gweithio yn y gwaith nwy gerllaw a fe oedd yn cadw allwedd y pwll nofio ac allwedd y ffynnon. Es i i mewn i'r hen ffynnon Rufeinig unwaith. Wrth fynd i mewn i'r dŵr, roedd raid i fi ddala rhaffau oedd yn sownd wrth bolyn yn yn y canol.

"Y ffynnon oedd yn cynnwys y dyfroedd 'iachusol'."

DIGWYDDIADAU

CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod-y-Garth, 10.30am. Hydref 6: Y Gweinidog (Cymun); Hydref 13: Y Gweinidog; Hydref 20: Y Gweinidog; Hydref 27: Y Parchedig Derwyn Morris Jones.

CYLCH MEITHRIN Gwaelod-y-Garth, 9.15-12, Festri Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth. Sesiynau prynhawn ddydd Mawrth a Mercher. Mwy o fanylion: 029 20 813980.

CYLCH TI A FI Ffynnon Taf: brynhawn Mercher yn ystod y tymor, 1.15-2.45pm, Neuadd Pentre Ffynnon Taf. Mwy o fanylion: Jo Jones, 029 20 810600.

CYMDEITHAS ARDDWROL Ffynnon Taf a'r Cylch: ddydd Mawrth cynta'r mis, Clwb Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, Glan-y-Llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 029 20 810241.

YSGOL GYNRADD GWAELOD-Y-GARTH: Hydref 21-25: Hanner Tymor.

NYDDU'R CYNGANEDDION
Trafod a llunio barddoniaeth gynganeddol gyda Rhys Dafis.
Bob Nos Fawrth am 7.30 yn dechrau 1 Hydref 2002 yn Festri Capel Bethlehem, Gwaelod y Garth

LLYFRAU

Mae Gwasg Prifysgol Cymru newydd gyhoeddi llyfrau gan awduron o'r ardal hon.



Mae 'Domestic Life in Wales' gan y diweddar S. Minwel Tibbott o Bentyrch yn gasgliad o wyth erthygl gynhwysfawr yn archwilio swyddogaeth merched ym mywyd y teulu Cymreig, yn seiliedig ar dystiolaeth lafar a gasglwyd gan yr awdures, ymchwilydd arloesol ym maes astudiaethau merched yn ystod ei gyrfa yn Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan. Cwblhawyd y gwaith o olygu'r gyfrol gan Beth Thomas.
Gwasg Prifysgol Cymru £12.95

Beth yw'r Gair am … ?

Paratowyd y geiriadur lliwgar yma gan Carol Williams, Pentyrch, yn bennaf ar gyfer plant ysgolion cynradd. Mae'n cynnwys dros 1,500 o eiriau ac yn hawdd ei ddefnyddio. Mae cymorth â threigliadau a chyflwyniad cam wrth gam i ddefnyddio geiriadur. Mae'n addas ar gyfer oedrannau gwahanol.
Gwasg Prifysgol Cymru £4.95



EIN CLWB NI NAWR!

"Ein Clwb Ni Nawr" oedd y geiriau ar y gacen a dorrwyd ar y 6ed o Fedi i ddathlu fod Clwb y Bont yn berchen yn gyfangwbl i aelodau'r Clwb.

Yn ystod yr haf cafwyd apêl am gefnogaeth i dalu gweddill morgais y clwb o £18,000 ac o fewn dau fis cyrhaeddwyd y nod. Bydd hyn yn cryfhau sefyllfa ariannol y clwb yn sylweddol ac yn sicrhau parhad rhan o fywyd Cymreig yr ardal.

Cafwyd noson hwyliog o ddathlu yn cynnwys cyfraniadau gan Swyngwsg, rhan o Gôr Meibion Pontypridd, Grŵp Aneirin Karadog a Grŵp Jazz Danny Thomas gyda chymorth arbennig Pat o'r Clwb.

Grŵp Jazz Danny Thomas

Grŵp Aneirin Karadog

Colin Gregory yn torri'r gacen gyda Craig Duggan, Cadeirydd y Clwb.

CWRS MENTRO MEWN BUSNES

Bob Nos Lun

28/10/02 - 02/12/02
Canolfan TEEP
Treforest, Pontypridd

Gwybodaeth:
01685 877183

Siop y Pentre
Village Trading Post

Pentre'r Eglwys

Popeth ar eich cyfer

Bwyd - diod
off-licence
popty-roliau

01443 218440

Theatr Bara Caws

yn cyflwyno
FEL HEN WIN . . .
gan Valmai Jones

Cynhaeaf da, y grawnwin gorau, swyn Wil Sam a digrifwch y digymar Ifas y Tryc
Ym mis Hydref eleni fe fydd Theatr Bara Caws yn teithio Cymru gyda'u teyrnged unigryw i Wil Sam Jones, ei fywyd a'i waith.

Wedi ei sgwennu a'i chyfarwyddo gan Valmai Jones mae'r sioe `Fel Hen Win...' yn blethiad difyr o dalpiau o'i ddramau poblogaidd ac anecdotau lliwgar yn seiliedig ar brofiadau y dramodydd enwocaf o Rhoslan.

Yn troi o gwmpas perfformiad grymus canolog gan Maldwyn John fel y dyn `i hun a sylw crafog neu ddau gan Ifas y Tryc, mae'n sioe eang ei apêl ac yn sicr o gynhesu calon unrhyw un sydd wedi mwynhau gwaith hynaws ac arbennig Wil Sam.

Bydd y daith yn cychwyn Nos Fawrth, laf o Hydref hyd at Nos Wener, 25 o Hydref.

Yr actorion: Dyfrig Wyn Evans, Maldwyn John, Jonathan Nefydd, Mari Wyn Roberts.
Cyfarwyddwraig: Valmai Jones.

Nos Wener, 25 Hydref. Neuadd Llanofer Caerdydd. 029 20 631144

Ydy **Alcohol** yn costio mwy nag arian i ti?
Paid digalonni! Mae 'na ateb!
AA
Alcoholigion Anhysbys
Ffonia **0845 76975555** a gofyn am

CROESAIR COL

Llongyfarchiadau i Goronwy Jones, 26 Gaspard Place, Y Barri. a ennillodd croesair Medi. Mae'r datrysiad ar safle www.tafelai.net.

Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau.

Atebion i: Croesair Col
34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn,
Pontyclun. CF72 8QX
erbyn 19 Hydref2002

Ar Draws

1. Mae'n curo (5)
4. Bod yn gyfarwydd â rhywun (5)
8. Y sŵn wrth iglan (2)
10. Geiryn (2)
11. Drachefn (3)
13. Math o goed (3)
15. Yn fwy na phentref (4)
16. Sbonc (4)
18. Goror (3)
20. Talu treth yma am defnyddio ffordd (5)
22. Lle i ddangos lluniau (5)
24. Geiryn negyddol (3).
30. Medr (4)
31. Bonheddwr o radd uchel (4)
32. Rheol, method (5)
33. Pryd, adeg (5)

I Lawr

1. Anifail dof cyffredin (2)
2. Tawch dŵr berw (4)
3. Lle gwag dan y ddaear (4)
5. Rhediad mawr o ddŵr (4)
6. Bod ag arswyd (4)
7. Ar groes i'r chwith (2)
9. Ddim yn ennill (5)
12. Diod boeth (2)
14. Ateb negyddol (2)
15. _ _ _ _ Tomos Las - aderyn (4)
17. Dotio (4)
18. Lluosog o ffon (3)
19. Marc (3)
21. Epil y fuwch (2)
23. Ateb cadarnahol (2)
25. Ddim yn uchel (4)
26. Datgloi (4)
27. Diwethaf (4)
28. Lluniau byw (4)
29. Cweryl (4)



www.s4c.co.uk



GWLEDD O RAGLENNI I DDATHLU PEN-BLWYDD S4C YN 20 OED

TACHWEDD 1-3

pen-blwydd s4c 20 02 s4c anniversary

S4C